# Y TINCER

PRIS 50c

Rhif 313

Tachwedd 2008

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# Taro nodyn cerddorol tra'n *Caru Nodyn*

Nos Fercher, Tachwedd 12fed, ac roedd neuadd Ysgol Rhydypennau yn diasbedain gan seiniau miwsig piano. Dau bianydd ifanc dawnus dros ben oedd wrth yr offeryn. Lawnsio *Caru Nodyn*, (Gwasg Carreg Gwalch) nofel newydd Gareth William Jones, oedd yr achlysur.

Penderfynwyd lawnsio'r nofel yng nghyfarfod Adran yr Urdd yn yr ysgol am mai ar gyfer plant o wyth i un ar ddeg oed y mae hi wedi ei hysgrifennu. Yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar y llyfr ei hun fodd bynnag trowyd yr achlysur yn ddathliad o'r piano a rhoi cyfle i'r disgyblion glywed perfformwyr medrus yn tynnu'r gorau ohono.

Hanes merch fach o'r enw Shauna yw'r nofel, sydd yn gorfod mynd i gael gwersi piano bob wythnos ac sydd yn eu casáu nhw, ac yn casáu ymarfer hyd yn oed fwy. Yr unig air y gallai hi feddwl amdano i fynegi cymaint roedd hi'n casáu'r holl beth oedd *ychafiofnadwyaethus*. Yn ei gyflwyniad i'r plant esboniodd yr awdur ei fod yn gwybod yn iawn am y profiad hwnnw gan ei fod yntau, pan yn blentyn, wedi bod yn amharod i ufuddhau a cheisio meistroli'r nodau du a gwyn. Yn unol â phroffwydoliaeth ei fam bu'n edifar ganddo wedi hynny nad oedd wedi ymroi yn fwy parod, yn enwedig gan fod ei frawd wedi dyfalbarhau.

Ond bu Shauna'n fwy ffodus na'r awdur. Un diwrnod daeth Nodyn, cath ddu a gwyn ei hathrawes biano, yn rhan o'i bywyd a digwyddodd pethau rhyfedd iawn yn sgîl hynny. Heb ddatgelu unrhyw gyfrinach, erbyn diwedd y stori gallai Shauna chwarae'r Noctwrn Rhif 2 yn E Fflat gan Frederic Chopin.

Wrth drefnu'r cyfarfod lawnsio cafodd Gareth y syniad y byddai'n beth da cael plentyn tua'r un oed â darllenwyr y nofel i chwarae'r union Noctwrn honno yno. Ond ble roedd dechrau chwilio? Barn arbenigwyr dysgu cerdd oedd y byddai'n orchwyl amhosibl. Daliwyd ati fodd bynnag, ac o'r diwedd daethpwyd o hyd i bianydd ifanc o Lanrug yn Sir Gaernarfon, o'r enw Math Roberts.

Braint a chyfaredd i bawb a oedd yn y cyfarfod, yn oedolion a phlant, oedd clywed Math, ag yntau'n ddim mwy na naw mlwydd oedd, yn rhoi datganiad hyfedrus a sensitif o'r gwaith anodd hwn, a hynny gyda phurdeb a glendid diymffrost. Bu'n wefr yn wir.

Doedd cael rhyfeddu at dalent un pianydd ifanc ddim yn ddigon. Yn dilyn perfformiad Math, daeth James Hancock Evans, disgybl hŷn yn Ysgol Penweddig, at y piano gyda chennad i argyhoeddi'r plant nad yw chwarae'r piano yn *ychafiofnadwyaethus* ond yn hytrach y gall fod yn bleser mawr. I brofi hynny chwaraeodd ddetholiad o ddarnau llon, lleddf, jazz a chlasurol, e.e. *In the Mood* Glenn Miller, Noctwrn Chopin yn F leiaf, cân Cruella de Ville, a chynnal sgwrs a chreu agosrwydd rhyngddo â'r plant yr un pryd — tipyn o gamp, yn enwedig i lanc ifanc, ond fe lwyddodd. Enynnodd ei ddull cyfeillgar a'i bersonoliaeth gynnes eu gwrandawiad astud.

Lawnsiad gwreiddiol ac awr o wledd gerddorol. Llwyddodd i dynnu sylw sicr at y llyfr ond gwnaeth gymaint yn fwy na hynny hefyd. Mae'n siwr y bydd athrawon piano yn yr ardal yn gweld newid er gwell yn agwedd eu disgyblion at eu gwersi o hyn ymlaen, a phwy ŵyr na fydd yno gynnydd yn nifer y disgyblion hefyd!.



Llun: Arvid Parry Jones

Math, James a Gareth William Jones yn y lansiad




Brodor o Fethesda, Dyffryn Ogwen yw Gareth William Jones, sydd bellach yn byw yn Bow-Street ers blynyddoedd mawr. Ei wythfed nofel i blant yw *Caru Nodyn*.

Bu'n athro drama yn Ysgol Sandfields Aberafan ac yn Ysgol Uwchradd Tregaron, yn gweithio i Lyfrgell Dyfed yn hybu darllen llyfrau plant, ac yn ddarlithydd drama yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau yn 2003 y dechreuodd ei yrfa fel awdur pan enillodd wobr yn Adran Gomisiynu'r Eisteddfod am ysgrifennu nofel i blant o 8 — 10 oed gydag anifail anwes yn ganolog iddi. *Anwesu Nodyn* oedd ei theitl yr adeg honno, ond penderfynodd wrth ei hail ddrafftio y byddai'r teitl *Caru Nodyn* yn apelio fwy at blant.

Hon yw ei wythfed nofel. Mae'r saith arall i gyd yn perthyn i gyfres *Mewnwr a Maswr*, (Gwasg Carreg Gwalch) sy'n dilyn hynt a helynt efeilliaid, Llion a Llyr, a'u cyfeillion, sydd i gyd yn dwlu ar rygbi. Cyhoeddwyd y gyntaf yn y gyfres, sef *Dau Ddewis* yn 2004, a'r chweched ohonyn nhw, *Ysbryd y Maswr*, ym mis Mai 2008. Mae'r seithfed ar y gweill i'w chyhoeddi yn 2009.

ytincertachwedd08.indd 1 18/11/08 09:30:31

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 313 | Tachwedd 2008

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor ☎ 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Aled Griffiths, 18 Dôl Helyg, Penrhyn-coch ☎ 828176
griffiths95@googlemail.com

**CASGLWR HYSBYSEBION** - Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER**
Anwen Pierce

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**BOW STREET**
Mrs Siân Evans, 43 Maes Afallen ☎ 828133
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch, ☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**LLANGORWEN/ CLARACH**
Mrs Jane James, Gilwern ☎ 820695

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **RHAGFYR 4** A **RHAGFYR 5** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **RHAGFYR 18**

**TACHWEDD 20** Nos Iau Cledwyn Fychan 'Bleiddiaid yng Nghymru" Cymdeithas Madog yng Nghapel Madog am 7.30

**TACHWEDD 20** Nos Iau. Noson Gemwaith 'Tlws' Bancyreithin, Llandre rhwng 7.30 a 9.30 Tocynnau £3, yn cynnwys gwin a lluniaeth ysgafn ar gael o flaen llaw drwy ffonio Meinir (820467), Sara (822029) neu Nia (820419). Cyfle gwych i brynu anrhegion Nadolig. Pwyllgor Apêl Llandre, Y Borth a Dôl-y-bont Eisteddfod Ceredigion 2010

**TACHWEDD 22** Nos Sadwrn John ac Alun yng Ngwesty Llety Parc Aberystwyth am 8.30. Tocynnau ar gael oddi wrth Megan Jones 612768 neu Llery Parc 636333

**TACHWEDD 26** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol Ffrindiau Cartref Tregerddan yn y Cartref am 7.00

**TACHWEDD 28** Nos Wener Cymanfa garolau yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth am 7.00 Arweinydd: Eirwen Hughes; organydd: Byan Jones; Llywydd: Catrin Davies Rhaglen: £5 o Dots neu wrth y drws Apel Aberystwyth a Phenparcau Eisteddfod yr Urdd 2010

**TACHWEDD 29** Bore Sadwrn Ffair Nadolig y Garn yn Neuadd Rhydypennau 10.00-12.00

**RHAGFYR 4** Nos Iau Sgorio: noson yng nghwmni; Malcolm Allen, John Hartson a Morgan Jones am 7.00 yng Nghlwb Pel-droed Penrhyn-coch. Cinio tri chwrs £25 Diolch i Cambrian Teiars am noddi. Manylion cyswllt: Gavin Allen 0784 767 239 penrhyncoch@footballclubsonline.net

**RHAGFYR 5** Nos Wener. Noson Goffi a Raffl Fawr; adloniant i ddilyn gan Lleisiau'r Werin yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor o 7-8.00

**RHAGFYR 6** Dydd Sadwrn Ffair Nadolig Plaid Cymru Gogledd Ceredigion yng Nghanolfan Y Morlan, Aberystwyth o 2.00 ymlaen. Stondinau lu, raffl fawr, Sion Corn a llawer mwy.

**RHAGFYR 6** Nos Sadwrn Cyngerdd gan Gôr Ar Ôl Tri, Iwan Parry (Bas) a Rhian Lois (Soprano) yn Eglwys Llangorwen am 7.30

**RHAGFYR 6** Nos Sadwrn Adloniant a gwin twym yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch o 6.00-8.00

**RHAGFYR 10** Nos Fercher Gwasanaeth carolau blynyddol Eglwys Elerch am 7.00

**RHAGFYR 10** Nos Fercher Gig dros Hawliau Dynol gyda Gruff Rhys, Euros Childs a Triattica ym Morlan; gig ddi-alcohol wedi ei hanelu at bobl ifanc 15-18 oed. Tocynnau: £8 ar gael o Morlan (617996)

**RHAGFYR 11** Nos Iau Azul de Pol "Tro i'r Ariannin" Cymdeithas Madog yng Nghapel Madog am 7.30

**RHAGFYR 12** Nos Wener Cyngerdd - Arweinydd - Alun Jenkins, Pontarfynach. Ger-y-lli dan arweiniad Gregory Roberts; Delyth Evans, Telynores Mynach; Sian Price, Telynores Bro Ystwyth; Dawnswyr Pantycelyn, Aberystwyth; Llywydd y Noson - Eira Lynn Jones Neuadd Bentref Pen-llwyn, Capel Bangor am 7.30

**RHAGFYR 14** Nos Sul Côr ABC yn cyflwyno Dilyn y seren yn cynnwys Atgof o'r sêr (Robat Arwyn) Unawdwyr: Helen Medi a Barry Rees am 7.30 ym Morlan, Aberystwyth. Tocynnau : £10 (pensiynwyr £7, plant £5) ar gael o Cerdd Ystwyth, Dots, Siop Inc neu trwy ffonio 07929 899 002 Elw at Eisteddfod yr Urdd 2010, Apêl Aberystwyth a Phenparcau

**RHAGFYR 15** Nos Lun Pwyllgor Apêl Trefeurig Eisteddfod 2010 yn canu carolau o amgylch Penrhyn-coch 6.30-9.00

**RHAGFYR 17** Nos Fercher Pwyllgor Apêl Trefeurig Eisteddfod 2010 yn canu carolau o amgylch Penrhyn-coch 6.30-9.00

**RHAGFYR 17** Nos Fercher Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.30 pm Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol y Urdd 2010 Croeso cynnes i bawb

**RHAGFYR 18** Nos Iau Plygain yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn am 7.30

**RHAGFYR 19** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau'r Nadolig

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £9 (£19 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. ☎ 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp** - Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street ☎ 828555.

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.


Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.
Cyhoeddir Y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor Y Tincer. Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.
Deunydd i'w gynnwys. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.


Telerau hysbysebu y rhifyn

| | |
|---|---|
| Tudalen gyfan | £70 |
| Hanner tudalen | £50 |
| Chwarter tudalen | £25 |
| Hysbyseb fach | £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn) |

Cysylltwch â'r trysorydd.

ytincertachwedd08.indd 2 18/11/08 09:30:35

# AGI AGI AGI!

Mae Cwmni Brolio Ysgol Penweddig yn brysur yn paratoi sioe AGI AGI AGI!, gan Urien William.

Cwmni Drama wedi ei sefydlu a'i redeg gan ddisgyblion yr ysgol yw Cwmni Brolio. Mae'r cynhyrchiad eleni dan ofal disgyblion y chweched dosbarth, Gwyneth Keyworth ac Angharad Gwyn Efans. Disgyblion yr ysgol sydd yn gyfrifol am bob elfen o'r perfformiad - actio, goleuo, set, gwisgoedd a dyletswyddau blaen tŷ a chefn llwyfan.

Braint yw cydweithio â'r disgyblion disglair yma wrth iddynt arwain, cyfarwyddo, cydweithio a chreu sioe broffesiynol i'r cyhoedd.

Hyfryd yw gweld disgyblion yn datblygu sgiliau theatrig, sgiliau allweddol, hyder a pherthynas gyda'i gilydd a staff trwy'r fath weithgaredd.

Cynhelir y sioe yn neuadd yr ysgol Nos Fawrth yr 25ain Dachwedd tan nos Iau y 27ain o Dachwedd am 7.30 y.h. Mae'r disgyblion wrthi'n gweithio'n galed i greu cynhyrchiad difyr a diddorol. Bydd cyfle i roi clod i'r disgyblion a thynnu sylw'r cyhoedd at allu ein hieuenctid.

Gellir cael tocynnau o swyddfa'r ysgol - rhif ffôn 639499

# Cyfri lawr i Eisteddfod 2010

Mae Pwyllgor Ieuenctid Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 wedi cyhoeddi calendr cŵl Mistar Urdd sydd ar werth nawr am £5. Mi fydd yr Eisteddfod gyda ni chwap a pha well ffordd i gyfri lawr at yr wythnos fawr na thrwy fuddsoddi yng nghalendr deunaw mis y Pwyllgor Ieuenctid. Mae Mistar Urdd wedi bod ar daith o amgylch Ceredigion ac wedi aros i gael tynnu ei lun yn rhai o leoliadau mwyaf adnabyddus y sir.

Katie Ann Bridden, ffotograffydd ifanc o Gross-Inn, Ceinewydd fu'n cadw cwmni i Mistar Urdd wrth iddo drafaelu o le i le a ffrwyth ei gwaith hi welir yn y calendr deniadol a defnyddiol yma. Rhwng mis Ionawr 2009 a Mehefin 2010 cewch grwydro golygfeydd godidog Ceredigion drwy gyfrwng y lluniau trawiadol a chadw trefn ar eich digwyddiadau ar y daith. Mae'r calendr deunaw mis yn fargen am ddim ond £5.

Beth am brynu un neu ddau (neu bump!) a'u rhoi yn anrhegion Nadolig i'ch teulu a'ch ffrindiau a chefnogi Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 ar yr un pryd. Os hoffech archebu calendr cysylltwch gyda Anwen Eleri yn swyddfa'r URDD Llangrannog ar 01239 652150

## Ffrindiau Cartref Tregerddan

Mae'r ffrindiau yn estyn croeso cynnes i chi fynychu'r Cyfarfod Blynyddol a gynhelir yn y Cartref am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, 26 Tachwedd 2008.

## Lluniau i'r Tincer

Derbyniwn fwy a mwy o luniau trwy e-bost neu ar ddisg neu CD-ROM, a chroesawn hynny. Mae'r un croeso i lun 'hen ffasiwn' — ar ffurf copi caled. Mae cais, fodd bynnag, lle mae'r llun yn un digidol, ei fod o ansawdd uchel (ni fyddai llun dynnwyd ar ffôn symudol, er enghraifft, yn addas) a'i fod yn cael ei yrru trwy e-bost neu ar ddisg/CD-ROM. Nid yw lluniau o'r math sydd wedi eu printio allan ar bapur yn addas, ac ni ddylid ysgrifennu mewn beiro neu ben ffelt ar gefn lluniau o'r math.

## RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**Tilly Davies, Clarach £10**
**Iona Jones, Bodfor, Y Borth £5**
**Marian Jenkins, Eryl, Llandre £10**

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Hydref 2008.
£15 (Rhif 14) Maud Phillips, 8 Tregerddan, Bow Street.
£10 (Rhif 65) Marian Jenkins, Eryl, Llandre.
£ 5 (Rhif 60) Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, Capel Bangor.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.
Am restr o Gyfeillion 2008 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeillion_y_tincer_2008.pdf

## CLYBIAU LLYFRAU

Rwy'n siŵr bod nifer ohonoch sy'n rhieni/gwarchodwyr yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd darllen a pherchenogi llyfrau i ddatblygu sgiliau llythrennedd a sgiliau personol plant. Un ffordd wych o wneud hyn yw cefnogi clybiau llyfrau Cymraeg a rhoi cyfle ar yr un pryd i'r plant ddechrau adeiladu llyfrgell bersonol.

Mae tair taflen ar gyfer y clybiau yn cael eu cynhyrchu bob tymor — Sbri-di-ri meithrin ar gyfer plant dan 4 oed, Sbri-di-ri cynradd ar gyfer plant 4—11 oed a Sbondonics ar gyfer plant 7—11 oed. Mae'r taflenni hyn yn cynnwys detholiad gwych o lyfrau y gellir eu prynu i'ch plant, ynghyd ag ambell fargen.

Mae cefnogi'r clybiau yn gyfle hefyd i'r ysgol wneud ychydig o elw, oherwydd bydd yn derbyn 10% o'r gwerthiant, ac i gefnogi eich siop lyfrau leol ond, yn bwysicach fyth, mae'n gyfle i chi fel rhieni/gwarchodwyr weld a phrynu detholiad o'r llyfrau sydd ar gael ar gyfer eich plant.

Mae cyflenwad o'r taflenni eisoes wedi'u dosbarthu i ysgolion a chylchoedd meithrin ledled Cymru ac mae'n bosib eich bod eisoes wedi gweld y taflenni ac archebu ohonynt. Os nad ydych, efallai byddai'n werth i chi holi yn yr ysgol neu, os oes anhawster, cysylltwch â ni.

Yn gywir,
Menna Lloyd Williams
Pennaeth yr Adran Llyfrau Plant
Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan
ABERYSTWYTH, Ceredigion SY23 2JB

## Yr ysgolion yn ymuno i godi arian

Ar Nos Wener Tachwedd 28ain bydd corau ysgolion cynradd ac uwchradd tref Aberystwyth yn ymuno am noson arbennig o ganu cynulleidfaol gyda naws Nadoligaidd hyfryd. Trefnir y noson gan bwyllgor apêl Aberystwyth a Phenparcau a disgwylir tyrfa fawr ynghyd yn Eglwys Seion, Stryd y Popty . Arweinir y Gamanfa Garolau gan Mrs Eirwen Hughes, Pen-cwm gyda Bryan Jones, Penrhyn-coch yn cyfeilio a llywydd y noson bydd Miss Catrin Davies o Gaerdydd. Ceir eitemau unigol gan yr ysgolion a digon o gyfle i bawb ymuno yn y canu cynulleidfaol. Mynediad drwy raglen £5 ac mae'r noson yn cychwyn am 7.00 — DEWCH YN LLU! Am fwy o fanylion ffoniwch Siop dots... Aberystwyth ar 01970 626333 neu cysylltwch ag unrhyw aelod o'r pwyllgor apêl.

## Anrhegion Nadolig Tlws

Bydd cyfle i brynu gemwaith cwmni Tlws nos Iau, 20fed o Dachwedd am 7.30 yn Bancyreithin, Llandre, a chyfrannu at Apêl Llandre, Y Borth a Dôl-y-bont ar yr un pryd. Cyfle gwych i gymdeithasu dros lasied bach o win ac i brynu nwyddau Nadolig Eisteddfod Ceredigion 2010. Ffoniwch 01970 820467 am docyn.

**ytincer@googlemail.com**

Annwyl Olygydd

Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig Ysgoloriaeth hyd at £300 i fyfyriwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg. Dyma'r trydydd tro i'r Gymdeithas gynnig yr ysgoloriaeth yma.

Amcanion ein Cymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir Brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno trwy edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

I wneud cais am yr ysgoloriaeth, mae angen cyfeiriad a manylion y cwrs ynghyd a lluniau o enghreifftiau o'ch gwaith at:

Medwen Charles, Maes Meini, Rhyduchaf, Y Bala, LL23 7SD. maes.meini@lineone.net

Y dyddiad cau fydd Ionawr 9fed o Ionawr 2009.

# Y BORTH

## Cymdeithas Gymraeg Y Borth a'r Cylch

Cyfarfu Cymdeithas Gymraeg Y Borth yn Festri Capel Y Gerlan, nos Fercher 8 Hydref. Gwasanaethodd Mrs Eryl Evans fel Cadeirydd y noson, yn lle ei gŵr Mr Gwyn Evans, oedd wedi anfon ei ymddiheuriadau yn ogystal â'i Ddirprwy Gadeirydd. Croesawyd yr aelodau yn ôl wedi seibiant yn ystod misoedd yr haf, ac fe ddiolchodd Mrs Evans yn arbennig i'r cyn-gadeirydd, Y Parchg Elwyn Pryse, ac i'r Ysgrifennydd, Mrs Nansi Hayes, am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn gynt. Derbyniwyd adroddiad gan Mr Glynne Evans, rysorydd.

Etholwyd y Parchg Wyn Morris yn Is-Gadeirydd ar gyfer 2008-9 ac ail-etholwyd Mrs Nansi Hayes a Mr Glynne Evans fel Ysgrifennydd a Thrysorydd.

Cyflwynwyd wedyn Y Parchg W.J. a Mrs Gwenda Edwards, er nad oedd gwir eisiau eu cyflwyno, meddai Mrs Eryl Evans, gan eu bod eisoes yn aelodau gwerthfawr o'r Gymdeithas ac yn adnabyddus yn y byd y tu hwnt. Gyda chymorth ei wraig, fe siaradodd Y Parchg W.J. Edwards am eu hymweliad, y llynedd, i'r Wladfa ym Mhatagonia, mewn ymateb i wahoddiad i weithio yno am dri mis fel Gweinidog yng Nghapeli'r Wladfa. Dibynna Cymry Patagonia yn helaeth ar Weinidogion dros dro, gan fod prinder trist o Weinidogion i fugeilio ac i ofalu am wasanaethau'r Capeli.

Oer iawn ydoedd pan gyraeddasant Drelew yn y Gaiman, ar ddechrau gaeaf a ddilynodd haf eithriadol o boeth. Gyda chymorth sleidiau fe ddangosodd y Parchg W.J. Edwards rhai o'r llefydd a'r digwyddiadau yr oeddynt wedi ymweld â hwy, gan gynnwys Capeli, Tai Te, Cofeb Porth Madryn ac Eisteddfod yr Ifainc, a gynhaliwyd yn fuan ar ôl iddynt gyrraedd. Rhoddwyd y pwyslais mwyaf ar bobl y Wladfa, sydd yn meithrin, o hyd, gysylltiadau agos â'u gwreiddiau yng Nghymru ac â'u teuluoedd yn yr Henwlad. Adnabuwyd sawl un yn y lluniau gan aelodau o'r Gymdeithas, oedd yn perthyn i rai ohonynt neu'n gyfarwydd â'u teuluoedd.

Diolchwyd i'r Parch W.J. Edwards a Mrs Gwenda Edwards gan Mrs Eryl Evans.

## Eglwys Sant Mathew

Ar ddiwedd mis Medi, caewyd y ffordd i Eglwys Sant Mathew gan Gwmni'r Rheilffordd, Arriva, er mwyn ailosod cledrau'r lein i Aberystwyth, gan adael plwyfolion Sant Mathew yn ddigartref. Dydd Sul, 28 Medi, nid oedd yn bosibl cynnal y ddau wasanaeth boreol o gwbl. Trwy garedigrwydd ymddiriedolwyr y Neuadd Gymunedol, cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch yn Neuadd y Borth, fore dydd Sul, 5 Hydref, o dan ofal y Parchg Ronald Williams. Dilynwyd y gwasanaeth, yn hwyrach yn yr un dydd, gan Swper Diolchgarwch yn Nhafarn "Ceffyl y Môr". Diolchir yn gynnes i Margaret Griffiths a Glynne Jones am eu croeso ac am bryd o fwyd blasus iawn.



## Priodas Dda

Llongyfarchiadau gwresog i Delyth Pryce Jones, a Robert Hunt ar eu priodas ar 20ed o Fedi. Bu'r seremoni yn y Swyddfa Gofrestru yn Aberystwyth, a'r wledd a'r parti nos yng Nghlwb Golff, Aberyswyth. Dymunir yn dda i'r ddau wrth ymgartrefu yn eu cartef newydd, "Greenways", Rhodfa'r Graig.

Ar gyfer y ddau ddydd Sul nesaf, fe ddaeth Gweinidogion ac aelodau Capel Y Gerlan i'r adwy, gan gynnig defnydd o'r Capel i'r gynulleidfa grwydrol. Cynhaliwyd gwasanaeth boreol yn Y Gerlan, ddydd Sul 12 Hydref o dan ofal y Parchg. Ddr. David Williams a gwasanaeth Cymun, ddydd Sul 19 Hydref, yng ngofal y Parchg Ronald Williams. Diolchir o galon i'r Gwenidogion ac aelodau'r Gerlan am eu caredigrwydd.

Dydd Sul, 26 Hydref, cynhaliwyd y gwasanaeth boreol yn Neuadd Gymunedol Y Borth, pan weinyddwyd y Cymun gan Y Parchg Ronald Williams.

## Salwch

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs Eileen Morris, Bel-Air, Mrs Margaret Griffiths a Mr Glynne Jones, Clos Bryngwyn, a Mr Vernon Ball, Cefn Ydfa, sydd i gyd wedi derbyn triniaeth yn yr Ysbyty yn ddiweddar.

## Pen blwydd

Anfonwn ein llongyfarchiadau a dymuniadau gorau at Mrs Pam Gibbs, Gorwel, a ddathlodd ei phen blwydd yn 92 oed ar y 16eg o Hydref.

## Y Lleng Brydeinig

Cynhaliwyd Cyfarfod Agored Blynyddol Lleng Brydeinig Y Borth yn y Neuadd Gymunedol, nos Fercher, 22 Hydref. Croesawyd aelodau gan Mr Aran Morris MBE (Cadeirydd) a adroddodd yntau yr Anogaeth. Cyflwynodd Mrs Rachel Rowlands, MBE a Dirprwy Raglaw, dystysgrif i Mrs Jo Jones ar ol iddi gwblhau cwrs hyfforddiant i swyddogion. Derbyniwyd adroddiadau gan Mrs Jo Jones (Ysgrifennydd) a'r Parchg. Ddr David Williams (Trysorydd).

Etholwyd swyddogion ar gyfer 2008-2009 fel a ganlyn:

**Llywydd**: Mr. Aran Morris MBE
**Is-Lywydd**: Mr Len Dennett
**Cadeirydd**: Y Parchg. Ddr David Williams
**Is-Gadeirydd**: Mr Barry Jenkins
**Ysgrifennydd a Threfnydd Apêl Pabiau**: Mrs Jo Jones
**Ysgrifennydd cynorthwyol**: Mrs Yvette Ellis Clark
**Trysorydd**: Mr Brian Holland
**Pwyllgor Lles**: Y Parchg. Ddr David Williams (Cadeirydd), Mrs Rebecca Ricketts (Is-Gadeirydd), Miss Joy Cook (Ysgrifennydd)

Dilynwyd busnes y noson gan luniaeth ysgafn, ynghyd a chwis wedi'i ddyfeisio gan Mrs Ann Newby.

## Clwb yr Henoed

Betty Horton oedd y cadeirydd yng nghyfarfod Clwb yr Henoed yn y Neuadd Gymunedol, ddydd Iau, 9 Hydref. Difyrrwyd yr aelodau gan ein ffrindiau, Dawnswyr Lein y Borth, cyn i bawb fwynhau parti syrpreis i ddathlu pen blwydd Bryan Hartland yn 80 oed. Diolch i Kath Hartland a drefnodd y parti, ac i'r aelodau a gynorthwyodd i baratoi'r wledd o frechdanau a theisennau oedd ar gael. Pobwyd y deisen ben blwydd gan Mrs Betty Gregory.

Diwrnod o wyntoedd cryfion a glaw eithriadol o drwm oedd dydd Iau, 23 Hydref, ond, er gwaethaf y tywydd garw, ychydig iawn a fethodd a mynychu'r cyfarfod pythefnosol.

Cadeiriwyd y cyfarfod, am y tro cyntaf, gan Sylvia Holland.Y gŵr gwadd oedd Mr Anthony Morris, a siaradodd am waith Cyngor Cymunedol Y Borth a sut y mae'n gwasanaethu'r gymuned leol. Dilynwyd ei sgwrs gan drafodaeth frwd am y problemau y mae rhai o'r aelodau wedi eu dioddef oherwydd llifogydd ar ôl glaw trwm, a rhai ohonynt wedi'u hachosi gan fethiant yr awdurdodau i gynnal a chadw'r ffos sy'n rhedeg y tu ôl i dai'r pentref. Diolchwyd i Mr Morris gan Sylvia Holland. Diolchwyd hefyd i Betty Gregory sydd wedi rhoi £45 i'r Clwb; dyna'r elw sy'n dod o'r teisennau, jamiau a phiclau wedi'u cynhyrchu gan Bettty ac sy'n cael eu gwerthu yn y cyfarfodydd.

## Sefydliad y Merched

Ni chynhaliwyd y cyfarfod arferol, nos Fercher 15 Hydref, oherwydd cyfarfod cangen y Fedwen a gynhaliwyd yn Nhal-y-bont ar yr un noson. Mynychwyd y cyfarfod yn Nhal-y-bont gan barti o aelodau o SYM y Borth; mwynhawyd noson gymdeithasol a siaradwyr diddorol, sef Mrs Hilary Matthews a Mrs Dot Poole, ill dwy o'r Borth. Rhoddwyd adroddiad ar ran SYM Y Borth gan Margaret Hudson. Diolch i SYM Tal-y-bont am eu croeso a'r lluniaeth flasus.

## Codi Arian

1. At Eisteddfod yr Urdd 2010
Cynhaliwyd Ffair Hydref Ddydd Sadwrn Hydref 25ain, yn Neuadd Goffa Gymunedol y Borth, wedi ei threfnu ar ran Pwyllgor Apel Llandre, Dôl-y-bont a'r Borth gan Rosa Davies yn cael ei chynorthwyo gan Ray Quant, Rayma Williams a nifer o wirfoddolwyr parod. Er nad oedd prysurdeb mawr i'w weld, bu'n llwyddiant ysgubol, gan godi bron i £400. Diolchir yn gynnes iawn i bawb a fu'n gyfrifol am stondinau/byrddau, a'r gwragedd gweithgar yn y gegin am eu hymdrech lew ar y dydd, ac i'r rheini na allodd ddod ond a gyfrannodd yn ariannol, am eu cefnogaeth.

2. At Amnesty Rhyngwladol.
Dau a fu'n brysur yn codi arian hefyd yn ystod mis Hydref yw Jenny a Stuart Evans, Cliff House, Ffordd y Fulfran, a hynny at Amnest Rhyngwladol. Ar Nos Sadwrn, Hydref 18ed, buont yn westeiwyr i tua hanner cant o bobl i "swper elusennol" yn eu cartref, gan godi dros £300. Mae'r elusen yma yn gweithio i amddiffyn unigolion sy'n dioddef cam yn erbyn hawliau dynol, ac yn helpu ymladd dros gyfiawnder mewn llawer rhan o'r byd. Dyma'r ail flwyddyn i Jenny a ffrindiau goginio pryd o fwyd blasus at y pwrpas yma, a dymuna hi a Stuart ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion am eu cefnogaeth ac am noson a fwynhawyd gan bawb.

## Marwolaethau

**Mrs Dora Richards**
Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Mrs. Dora Richards, Broleri, Glanwern, Ddydd Gwener, Hydref 31ain yng Nghartef Nyrsio Cwmcynfelin, yn 92 oed.

Yn enedigol o Gapel Seion, daeth yn wraig ifanc briod i fferm Glanleri i ffermio a chadw maes carafannau gyda'i diweddar ŵr, Jim. Buan yr ymdoddod i fywyd y pentref a'r Capel, gan chwarae rhan amlwg a blaenllaw mewn llawer maes o fewn y gymuned, a thu hwnt. Nid âi Sul heibio, heblaw am gyfnodau o anhwylder, pan nad oedd yng ngwasanaethau'r Gerlan, lle bu'n Flaenores, Organyddes ac Ysgrifenyddes dros hir flynyddoedd.

Roedd ei diddordebau yn eang, a pherthynai i amryw o gymdeithasau ac elusennau, Gosod Blodau, Cyngor Ymchwil Arthritis, ac ati. Roedd ei hoffter o ganu yn wybyddus i lawer a bu'n aelod o Gôr Merched y Borth, Wythawd y Borth, a Chymdeithas Gorawl Aberystwyth.



Dora yn dathlu yn ei pharti pen blwydd yn 90 oed yn y Gerlan Hydref 2006).

Rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth fel Cynghorydd i Gyngor Cymuned y Borth, gan ddal y swydd anrhydeddus o Faer ar ddau achlysur.

Roedd wedi ei gwreiddio yn y "Pethe" ers ei dyddiau cynnar, a pharhaodd hynny trwy gydol ei hoes, a bu'n gyfrifol am rediad hwylus Eisteddfod Gadeiriol y Borth yn ei swydd fel Ysgrifenyddes am gyfnod maith.

Cydymdeimlir â Rheinallt, ei wraig Catherine, a'u plant, Eleanor a Steffan, ar golli Mam, Mam yng Nghyfraith, a Mam-gu annwyl, ac â Llinos ar golli ei chwaer, a'r cysylltiadau teuluol eraill, a ffrindiau.

Bu ei hangladd Ddydd Iau, Tachwedd 6ed, yng Nghapel y Garn, yng ngofal ei Gweinidog, y Parchedig Wyn Morris, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedigion Elwyn Pryse a J.E.Wynne Davies.Yr Organyddes oedd Eurgain Rowlands. Roedd y blodau yn y Capel yn rhodd gan ei chyfeillion sy'n cyd addoli yn y Gerlan.

Cyflwynwyd teyrnged y teulu a theyrnged ar ran y Gerlan gan un a'i hadnabu'n dda dros nifer fawr o flynyddoedd, sef un o'i chyn-Weinidogion, y Parchedig Elwyn Pryse.

Gosodwyd ei gweddillion i orffwys ym Mynwent Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn.

**Mr. Tony Waugh**
Bu farw Mr.Tony Waugh, gynt o Hillboro, Y Graig, yn Ysbyty "New Cross", Wolverhampton ar Hydref 21ain yn 77mlwydd oed. Deintydd oedd Mr.Waugh wrth ei alwedigaeth, ond oedd hefyd a chariad mawr at ffermio, a phob math o weithgareddau awyr agored fel saethu, pysgota a golff, ond hefyd â diddordeb mewn hen bethau, ac yn arbenigo mewn gwydr, a'i gasgliad o wydr wedi ennill clod iddo yn genedlaethol. Ond fel golffiwr a gŵr bonheddig y cofir amdano gan y rhan fwyaf o bobl y Borth. Bu'n gapten o Glwb Golff Y Borth ac Ynys-las ym 1974, ac yn Llywydd o 1990-3.

Er iddo ddioddef stroc ym 1993, a'i leferydd wedi amharu, daliodd ei bersonoliaeth yn siriol drwy'r cyfan, a bu'n dilyn rhai o'i ddiddordebau fel pysgota hyd yn oed o'i gadair olwyn .

## Enillydd cenedlaethol

Llongyfarchiadau i Mared Pugh-Evans am ennill y drydedd wobr yng nghystadleuaeth unawd telyn dan 13 oed yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn y Rhyl.

MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH
TRWSIO . TIWNIO
M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

oriel
Tir a Môr
gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

# LLANDRE

## Merched Y Wawr Genau'r-glyn

Cafwyd noson arbennig nos Lun Hydref 20fed gan mai dyma'r noson agoriadol i ni adre yn ysgoldy Bethlehem Llandre. Bu'r gangen yn brysur yn ymweld â Changen Tal-y-bont ar 15fed o Fedi ac a changen Rhydypennau ar 13eg o Hydref ac fe wnaethom fwynhau'r arlwy yn fawr iawn. Croesawyd pawb i Ysgoldy Bethlehem gan y llywydd am eleni, sef Marian Jenkins a bu'n cofio am aelodau sy'n sâl, eraill wedi colli anwyliaid a llongyfarch rhai ar ambell i ddathliad.
Ieuenctid y pentre' ddaeth atom i'n diddanu, sef Efa Mared a Dylan Huw, Banc yr Eithin a Rhun a Gwern Penri, Tai Gwynion. Dyma bedwar talentog iawn, clywsom eitemau unigol, deuawdau, offerynnol a chlocsio. Diolch yn fawr i'r pedwar am noson braf ac am fod mor barod i'n diddanu.

## Cyngor Cymuned Genau'r-glyn

Mae Cyngor Cymuned Genau'r-glyn wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad Newydd ac mae copïau o'r Cod ar gael i'r cyhoedd ei arolygu trwy gysylltu â Mrs D Harvey, Abel Gur, Lôn Glanfred, Llandre.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Sue Reeves, Glyn Bedw ar farwolaeth ei thad yn Stevenage.

## Treftadaeth Llandre

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am 7.30 o'r gloch yn Ysgoldy Bethlehem ar Dachwedd 27ain.

## Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig Naw Llith a Charol ar Nos Fercher 17 Tachwedd am 7.00 o'r gloch.

## Eisteddfod Ceredigion 2010 Pwyllgor Apêl Llandre, Y Borth a Dôl-y-Bont

Parti Gemwaith Tlws, Nos Iau 20fed Tachwedd yn Bancyreithin, Llandre o 7.30 tan 9.30. Tocynnau £3. Am ragor o fanylion cysylltir â Meinir 01970 820467

Nos Lun 15fed Rhagfyr. Noson Nadoligaidd ym Methlehem, Llandre. Am ragor o fanylion cysylltir â Llinos 01970 871615.

## Pen blwydd hapus

Llongyfarchiadau i Margaret Williams, Bryngolau ar ddathlu pen blwydd arbennig.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Nano Davies, Dolmeillion.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gwyn ac Eryl Evans, ar enedigaeth wyres yng Nghaerdydd. Ganwyd merch fach — Cadi — i Prys a Sioned Dafydd ar 19 Hydref; chwaer i Lewys.

# MADOG

Madog
**Suliau Rhagfyr**
**2.00**
**7** Rhidian Griffiths
**14** Oedfa plant yr ofalaeth yn y Garn
**21** Bugail
**28** Hywel Slaymaker

## Cronfa Macmillan

Casglwyd swm o £172.74 yn yr ardal at gronfa Macmillan. Mae Alwen am ddiolch i bawb a gyfrannodd ac am y croeso wrth gasglu.

## Brysiwch wella

Dymunwn adferiad llwyr a buan i Alwen Griffiths sydd wedi derbyn triniaeth yn ysbytai Singleton a Bron-glais;

Hefyd i Mrs Megan Evans, gynt o Gwynfa, sydd yn awr yn Ysbyty Bron-glais.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Shirley, Deilyn ar enedigaeth merch — Sian Mari, chwaer fach i Megan.

## Cwrdd Diolchgarwch

Daeth cynulleidfa deilwng i'r Cwrdd Diolchgarwch yng Nghapel Madog ar y 21 o Hydref. Croesawodd y gweinidog y Parchg. Wyn Morris y pregethwr gwadd, y Parchg. Nicholas Bee. Yr organydd oedd Angharad Rowlands ac addurnwyd y capel gan Margaret Hughes ac Aldwyth Lewis.

# DOLAU

## Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau mawr i Sandra a Dan Mason, Awel-y-Coed sy'n dathlu Priodas Ruddem ar 16eg Tachwedd.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Iwan M. ac Eiry Jones, Garmon a Deiniol, Dolau Gwyn, ar farwolaeth mam Iwan ddiwedd Hydref.

# LLANGORWEN

## Diolch

Dymuna Tilly Davies ddiolch i'w ffrindiau, cymdogion, a'r teulu pell ac agos am yr holl cardiau, presantau a galwadau ffôn a gafodd yn ystod yr amser y bu yn Ysbyty Bron-glais. Hoffai hefyd ddiolch i'r meddygon a'r nyrsus a phawb a fu yn gofalu amdani, yn enwedig yng Nghartref Bodlondeb ar ôl cael triniaeth o gael clun newydd. Mae Tilly wedi gwella yn fendigedig. Diolch i bawb a fu yn gefn iddi. Diolch o galon i bawb. Tilly

Cynhelir
## Cymanfa Garolau
Yn Eglwys Seion, Stryd y Popty

**Nos Wener 28 Tachwedd**
**am 7 yr hwyr**

**Arweinydd**: Eirwen Hughes
**Organydd**: Bryan Jones
**Llywydd**: Catrin Davies
Rhaglen £5 o siop Dots, Stryd y Farchnad neu wrth y drws ar y noson.

Yr elw at apêl Aberystwyth a Phenparcau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010

Blodau i bob achlysur
Blodau'r Bedol
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
Donald Morgan
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyncoch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# BOW STREET

**Suliau Rhagfyr**
10 a 5
Y Garn
7 Rhidian Griffiths Gweinidog
**14** Oedfa'r plant: gofalaeth
**21** Bugail
**28** Hywel Slaymaker

## Pwyllgor yr Henoed

Gwahoddwyd Henoed yr ardal i wasanaeth Diolchgarwch Ysgol Rhydypennau ar Hydref 22ain. Cafwyd croeso cynnes gan y plant a'r athrawon a mwynhad arbennig yn gwrando ar y gwasanaeth, roedd gwledd o ganu a llefaru graenus gan phob dosbarth ag yn dilyn y perfformiad cafodd yr Henoed eistedd o amgylch y byrddau yn mwynhau Te blasus wedi'i baratoi gan staff y gegin. Diolch yn fawr am pnawn arbennig. Roedd y casgliad eleni yn mynd tuag at NSPCC a Child Line. Edrychwn ymlaen at y Trip Siopa Nadolig i Gaerfyrddin ar Tachwedd 19eg.

## Merched y Wawr Rhydypennau

Yn ein cyfarfod fis Hydref croesawyd ein llywydd Lisa Davies ganghenau Llanfihangel Genau'r-glyn a Melindwr i ymuno â ni i 'noson gyda Virgin V'. Clare a Lisa oedd y ddwy ferch ifanc a ddaeth i ymddangos nwyddau Virgin V sydd yn cynnwys nwyddau tŷ ac ystafell ymolchi, hufen gofal croen, colur, a mân anrhegion. Cafodd Rhian fod yr aelod ffodus i cael Clare i roi triniaeth a cholur i'r wyneb tra fod Lisa yn dysgu'r gweddill ohonom sut i wneud y gorau o'n croen. Oes wir, ma' 'na 'Spark' arbennig i weld yn y Merched yn ddiweddar!

Cafwyd paned i orffen wedi'i threfnu gan y pwyllgor. Llongyfarchiadau i Margaret Rees ar ddod yn fam-gu i Sam, a Mary Thomas yn fam-gu i Lois.

## Cant Oed

Ar y dydd olaf o Hydref dathlodd Mrs Eunice A Davies ben blwydd arbennig iawn yn gant oed.

Ganwyd a magwyd Mrs Davies yng Nghwmystwyth ac yn ei harddegau aeth i weini i Lundain ac yno y priododd â Dan Davies.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd dychwelwyd i Gwmystwyth ac yna yn y chwedegau symudwyd i Abermagwr hyd yr wythdegau cynnar pryd y symudwyd i Fflat yn Aberystwyth.

Collodd ei phriod yn fuan wedyn a bu yn byw bywyd llawn yn y dref hyd at bum mlynedd yn ôl pryd yr aeth i gartrefu yng Nghartref Tregerddan.

Roedd iddynt chwech o blant, ac i ddathlu y canfed pen blwydd cafodd barti arbennig iawn yn y cartref yng nghwmni ei theulu, ffrindiau, staff y cartref ac eraill.

Diolch am yr holl gardiau a dymuniadau da, ac yn arbennig i staff y cartref am eu gofal ac hefyd am drefnu diwrnod mor arbennig i ddathlu'r amgylchiad.



## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhys a Mary Thomas, Tŷ Clyd, ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto, wyres fach arall sef Lois.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dai, Auriel, Mark a Ruth Evans, Trewylan, ar farwolaeth brawd-yng-nghyfraith i Auriel yn Llanrhystud.

## Brysia i wella

Dymunwn wellhad buan i Ruth Evans, Trewylan ar ôl bod mewn damwain car yn ddiweddar.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Beryl Bowen, Maes Ceiro, a Catrin, Trefor a'r teulu ym Mryncastell ar golli eu mam yng nghyfraith a mam-gu, sef Mrs Phyllis Bowen, gynt o Maes Afallen ond oedd bellach wedi ymgartrefu yng Nghartref Blaen Nos Llanymddyfri. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Iwan a rhoddwyd ei gweddillion i orffwys yn y fynwent gerllaw.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Jenny a Dylan Jones, 50 Bryncastell, ar enedigaeth mab, Noa, mis Hydref. Croeso cynnes i'r bychan, a dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

## Chwiorydd Y Garn

Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd brynhawn Mercher 5 Tachwedd. Arweiniwyd mewn defosiwn gan Mary Thomas, Dolgelynen, a Kathleen Lewis oedd wrth yr organ. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, Gwenda Edwards gyda chroeso arbennig i Gwenda James yn ôl atom wedi cyfnod o salwch. Anfonwyd y £55 a gasglwyd yn y Cyfarfod Diolchgarwch i Gyngor Henoed Ceredigion.

Cawsom brynhawn diddorol iawn yng nghwmni'n cyd-aelod Glyn Saunders Jones, y Fagwyr, a fu'n sôn am ei waith gyda'i wraig Gill efo Cwmni Atebol. Mae'r cwmni'n arbenigo mewn paratoi adnoddau addysgol



Gabriel Restucha, maer y Gaiman, yn dangos eitemau yn swyddfa'r Maer i Dewi Hughes ar ymweliad diweddar â'r Wladfa. Dyma ail ymweliad Dewi – bu yno o'r blaen ym 1978 gyda Meibion Menlli.

ar gyfer ysgolion a cholegau Cymru. Mae Atebol hefyd yn cyhoeddi llyfrau a gemau i'w defnyddio gan blant a'u rhieni yn y cartref. Mae'r cwmni'n rhoi pwyslais ar baratoi geiriau ac adnoddau dysgu sy'n hwyl i'w chwarae a'u defnyddio. Roedd Glyn wedi dod a chasgliad helaeth o lyfrau a gemau i'w dangos inni ac yr oeddynt yn lliwgar a deniadol. Ar y diwedd cafwyd cyfle i archebu a phrynu. I gloi prynhawn hynod fuddiol cawsom de blasus wedi'i baratoi gan wragedd Llandre.

## Croeso

Croeso i Rhun a Lowri Emlyn i'w cartref newydd yn 54 Maes Afallen. Daw Rhun o Langernyw, ger Llanrwst ac mae yn fyfyriwr ymchwil yn Adran Hanes y Brifysgol lle mae ganddo ysgoloriaeth Mantais.. Un o Ferthyr yw Lowri ac mae yn athrawes Saesneg yn Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth.

## Gwella

Da deall fod Ben, mab Carwyn a Lindsey Jones, Maes Awelon, Pen-y-garn yn gwella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Dymuniadau gorau a gwellhad buan iawn i Arwel George, Llys Hedd wedi iddo cael anaf yn ddiweddar.




Yr Arglwydd Elystan-Morgan, fu'n traddodi darlith yr Archif Wleidyddol Gymreig yn y Llyfrgell Genedlaethol ar 7 Tachwedd. Bydd y ddarlith i'w gweld yn fuan ar wefan y Llyfrgell. Mae ganddo hefyd erthygl ddifyr – "Senedd sy'n bwysig, nid Arwisgiad" yn rhifyn Tachwedd o'r cylchgrawn *Barn*. Llun: Llyfrgell Genedlaethol Cymru

ytincertachwedd08.indd 7 18/11/08 09:30:44

# Adran Iau Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

Cafodd Adran Iau Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las haf llwyddiannus er gwaetha'r tywydd anffafriol. Unwaith eto buom yn teithio mhell ac agos i gystadlu mewn gwahanol gystadlaethau agored.
Yn ystod wythnos Agored Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las daeth Daniel ac Angharad Basnett i'r brig, Angharad yn ennill y Gystadleuaeth Agored i Fenywod a Daniel Cystadleuaeth Agored y Dynion. Mae Daniel hefyd wedi ennill Cwpan Banc y Barclays a Pencampwriaeth Mid Wales Nett.

Yn y llun gwelir Daniel Basnett a lwyddodd i sgori twll mewn un ar y 14 twll yn Y Borth ac Ynys-las ar 12 Orffennaf 2008. Campus Daniel!!
Ar un o'r diwrnodau sych a heulog prin ym mis Awst cynhaliwyd diwrnod llwyddiannus gan Steffan Richards, Capten yr Adran Iau. Ar ôl pryd o fwyd yn y Clwb anrhydeddwyd yr enillwyr fel a ganlyn:
**Enillydd Nett**: Gwenno Morris (Penrhyn-coch) 114:45:69
**2il** Matthew Evans (Capel Bangor) 74:5:69
**3ydd** Jordan Roberts (Rhydyfelin) 116:45:71
Enillydd Gross: Gareth Davies (Penrhyn-coch) 72:7:65
**Cwpan y Capten Iau**: Gareth Davies (Penrhyn-coch)

**Canlyniadau**
Medal Misol Mehefin
**1af** Gareth Davies (Penrhyn-coch) 76:8:68
**2il** Michael South (Llandre) 93:21:72 (9 cefn)
**3ydd** Elis Lewis (Bow Street) 100:28:72
Medal Misol Gorffennaf
**1af** Ioan Lewis (Bow Street) 91:20:71
**2il** Jac Morris (Y Borth) 90:17:73
**3ydd** Angharad Basnett (Bont-goch) 97:18:79
Gross gorau: Zach Galliford (Y Borth)
Medal Misol Awst
**1af** Angharad Basnett (Bont-goch) 82:16:66
**2il** Daniel Basnett (Bont-goch) 78:11:67
**3ydd** Ioan Lewis (Bow Street) 87:19:68
**Gross gorau**: Zach Galliford (Y Borth)
Hefyd ym mis Awst cynhaliwyd Cwpan Coffa Agored Aled Humphries a noddwyd eleni gan Salop Leisure. Bu dau o Adran Iau Clwb Y Borth yn llwyddiannus sef Elis Lewis sy'n 9 oed o Bow Street a enillodd Cwpan Nett Aled Humphries a Zach Galliford o'r Borth a enillodd Cwpan Gross Salop Leisure.

Yn y llun gwelir Dylan Raw-Rees (Capten), Dylan Roberts (Salop Leisure), Sarah Humphries, Elis Lewis enillydd Cwpan Aled Humprhies a Zach Galliford enillydd Cwpan Salop Leisure.

Ar y 10fed o Awst cynhaliwyd Cystadleuaeth blynyddol Agored Oedolion/Iau. Cefnogwyd y gystadleuaeth yma yn gryf eleni eto gyda 36 o barau yn cymryd rhan. Noddwyd yr achlysur unwaith eto trwy garedigrwydd Parc Carafannau Glanlerry.





# CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau, 30 Hydref yn Neuadd Rhydypennau gyda'r Cynghorydd John Evans yn llywyddu. Roedd y Cynghorydd Sir Paul Hinge yn bresennol a chyflwynodd ei adroddiad misol i'r Cyngor. Dywedodd fod mater mabwysiadu y rhan olaf o Ystad Maesafallen mewn llaw a gobeithir gweld terfyn ar y mater cymhleth hwn yn fuan. Cyfeiriodd hefyd at y darn tir ar waelod Maes Ceiro sydd yn eiddo i'r Cyngor Sir bellach, a bod ceisiadau yn dod i law i'w ddatblygu yn erddi unigol (allotments). Rhoddir y cynnig cyntaf i drigolion Maes Ceiro. Gan fod gofid cynyddol am fan croesi'r ffordd tu allan i Ysgol Rhydypennau, y bwriad yw newid y cyfyngiad cyflymder o 30 i 20mya, a symud y groesfan ychydig lathenni tuag at Neuadd Rhydypennau a'i reoli gan ddyn/dynes lolipop. Awgrymodd y Cynghorydd Hinge hefyd y gellid symud yr arwydd 40mya y tu hwnt i ben lôn Dolau tua'r gogledd, gan fod yr ardal hon eto yn fan beryglus. Soniodd hefyd am y broblem gynyddol o gŵn yn baeddu llwybrau yn Bow Street, ac erbyn hyn o fewn cabanau aros y bysiau. Mae'r arferiad hwn yn hollol anerbyniol, a dywedir bod plant yn gorfod sefyll allan yn y tywydd, gan fod y cabanau mewn cyflwr difrifol. Mae'r adran gynllunio wedi caniatau cais am 16 o dai yng Nghae 'Rodyn, ond eu bod am gael barn Dŵr Cymru parthed y garthffosiaeth. Bydd y Cynghorydd yn galw cyfarfod yn fuan (yn Festri Noddfa) i drafod ffyrdd diogelwch yn yr ardal e.e. pont droed dros y rheilffordd ar ffordd Clarach.

Mae'r Cyngor Sir wedi cysylltu â pherchnogion cloddiau sydd yn gordyfu i'r strydoedd a'u gorchymyn i'w torri. Bydd cynllun PACT yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau ar 7 Ionawr. Adroddwyd bod y cais am newid defnydd i ddau annedd ym Manaros, Pen-y-garn wedi ei ganiatau. Derbyniwyd dau gais newydd ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r un ohonynt sef: Llinellau trydan ym Mharc Carafannau Bae Clarach ac Unedau Gwaith yn rhan o ffald Nantllan.

Penderfynwyd cyfrannu £125 tuag at y gost o gynnal Noson Tân Gwyllt sy'n cael ei threfnu gan Glwb Pêl-droed Bow Street. Datganodd y Cyng. Vernon Jones ei ddiddordeb yn y mater hwn ac ni gymerodd ran yn y drafodaeth.

Talwyd y biliau a ddaeth i law sef: £625 am dorri glaswellt a £60 rhent cae chwarae Tregerddan.

Os oes nam ar unrhyw olau yn yr ardal, medrwch ffonio Cyngor Sir Ceredigion ar 01545 572 572 gan nodi rhif y polyn. Bydd y cyfarfod nesaf ar 27 Tachwedd.

ytincertachwedd08.indd 8 18/11/08 09:30:47

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

### Croeso

Croeso cynnes i Mr Rhodri Francis, yn wreiddiol o Bontypridd, sydd wedi symud o Benrhyn-coch i fyw i Preswylfa, Dolypandy, ac yn gweithio yn Swyddfa'r Sir. Hyderwn y bydd yn hapus yn ein plith.

### Y Swyddfa Bost

Mae y Swyddfa Bost bellach yn Neuadd y Pentref bob prynhawn Llun. Gellir dal i gymdeithasu y Llun cyntaf o'r mis, dan nawdd y neuadd gyda chwpanaid o de, cacen a raffl, rhwng 2 a 4 o'r gloch. Pris £1. Croeso.

### Ysbyty

Da yw clywed fod Mrs Agnes Goodson, Mrs Doris Maiorana a Mr Billy Evans yn well ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Hefyd Mr Fred Williams cyn Gynghorydd sir Melindwr. Dymuniadau gorau am wellhad buan i chi i gyd. Cofion cynnes i Mrs Gwyneth Harries hefyd sydd ar hyn o bryd yn ysbyty Tregaron.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir y mis hwn â theuluoedd Rheidol Banc a Deiniol. Mae Meinir Lewis wedi colli ei darpar thad yng nghyfraith - Mr Ieuan Jones, Caerffili, i'r afiechyd creulon Motor Neurone. Hefyd bu farw Mr Islwyn Richards Pwllpeiran, cefnder i'r diweddar Arllwyd a David Lewis. Yn ogystal Mrs Nesta Thomas, Garej Windy Corner Pencader, a fu farw yn 53 mlwydd oed (nith iddynt)

### Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Croesawyd ni i gyfarfod mis Hydref gan ein llywydd Mary Jones. Wedi darllen y cofnodion a thrafod yr ohebiaeth aed ati i drefnu ein cinio Nadolig. Yna croesawodd y llywydd ein siaradwr gwadd, sef Mr. Owen Watkins. Mae'n frodor o Daliesin a chafodd ei fagu yng Nghaerdydd. Enillodd gymwysterau fel cyfreithiwr a chyn ymddeol fe fu yn brif weithredwr Cyngor Sir Ceredigion. Bu'n sôn wrthym am ei waith fel prif weithredwr a chlywsom ganddo am rai o'r prosiectau y bu'n gyfrifol amdanynt tra yn y swydd honno. Cawsom noson ddiddorol iawn.

Diolchwyd iddo gan Eirwen McAnulty ac fe fwynhawyd te a bisgedi wedi eu paratoi gan Liz Collison ac Eirwen McAnulty. Enillwyd y raffl gan Gwen Morgan.

Y mis canlynol croesawyd ni i'r cyfarfod yn neuadd y pentref gan ein llywydd. Rhoddwyd croeso arbennig yn ôl wedi salwch i Eirlys Davies (Caehaidd) ac i Ann Louise Davies. Ein gŵr gwadd y tro hwn oedd Mr. John Glant Griffiths, sy'n frodor o Langeitho ond yn awr yn byw yn Lledrod. Fe'i croesawyd ef a'i wraig yn gynnes atom. Dechreuodd ar ei daith yn Ystrad Fflur a thrwy gyfrwng sgwrs, llun a chân tynnwyd ein sylw at Ryfeddodau'r Goedwig. Roedd yn amlwg fod ganddo ddiddordeb mawr yn y pwnc a stôr o wybodaeth a oedd yn barod iawn i'w rhannu â ni.

Diolchwyd iddo am y noson ddiddorol gan Liz Collison. Margaret Dryburgh a Heulwen Lewis oedd yn gyfrifol am baratoi cwpanaid o de a bisgedi. Enillwyd y wobr raffl gan Eirwen Sedgwick.

### Capel Pen-llwyn

Cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch Nos Lun Hydref 13eg. Y pregethwr gwâdd oedd y Parchedig Wyn Rhys Morris, a chafwyd pregeth amserol a phwrpasol ganddo. Estynnwyd croeso i'r rhai o gapeli a'r eglwys gyfagos, gan Mr Martin Davies.

Trueni na fuasai mwy o'r aelodau yn bresennol, ond diolch i'r rhai a welodd yn dda i ddiolch i'r Arglwydd Dduw a chydnabod ein holl fendithion dyddiol drwy gydol y flwyddyn. Addurnwyd y capel yn addas ar gyfer yr achlysur gyda chymorth Mrs Eirwen Sedgwick, a chwaraewyd yr organ gan Mrs Cynthia Evans.

### Ymweliad o Japan

Cafodd Gareth groeso mawr yn y Pandy yn ddiweddar mae'n siŵr, gan Mam a Dad, Alun a Mair Jenkins, pan oedd yn ymweld gyda'i ferch fach pum mlwydd oed, Hana. (ystyr ei henw yw blodyn yn Siapan). Mae Gareth wedi ymgartrefu yn y wlad bellach, ac yn gwbwl hapus ac yn rhugl yn yr iaith. Dymuniadau gorau iddynt ac i Chiharu ei briod a Cai yn ogystal, sy'n 3 mlwydd oed.

### I Rwanda

Cofiwn am Carys Hughes, Brynawelon, y dyddiau hyn, sydd wedi mynd i Rwanda i weithio gyda'r elusen Achub y Plant.

Mae Carys wedi ei rhyddhau o'i swydd fel Cyfrifydd gyda Pryce Waterhouse Cooper, Caerdydd, am chwe mis. Roedd yn teithio i'r wlad ar Tachwedd 4ydd, a da oedd clywed ei bod wedi cael siwrnau ddiogel, ac yn aros gyda theulu mewn ty hyfryd. Mor gyfleus yw derbyn neges yn sydyn ar yr e bost. Roedd y tywydd, meddai, yn fendigedig.

Dymunwn iddi pob dymuniad da a rhwyddineb yn ei gwaith. Bydd yn siŵr yn brofiad gwych i Carys a hithau yn gaffaeliad i'r elusen. Edrychwn ymlaen i glywed yr hanes pan ddaw Carys yn ei hôl. Bendith Duw arni.

### Priodas

Priodas dda i Mr a Mrs Geraint a Karen Evans, a briodwyd yn eglwys Elerch, Bont-goch ar y 13eg o Fedi. Mae Karen yn un o ferched Mr Eifion Thomas, Troedrhiwlwba gynt.


James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5130 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger
1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm (toeon, gwteru, fasias, tai gwydr a.y.yb)
• Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

# CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, 21 Hydref, yn Neuadd y Penrhyn, gyda'r Cadeirydd, y Cyng. Richard Owen, yn y gadair a saith aelod arall yn bresennol yn ogystal â'r Clerc. Cafwyd ymddiheuriadau gan Tegwyn Lewis, Melfyn Evans ac Edwina Davies yn ogystal â'r Cynghorydd Sir, Dai Suter.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod mis Medi. Adroddwyd na chafwyd atebion i lythyrau a anfonwyd at y Cyngor Sir ynglŷn â'r golau rhybudd diffygiol ger yr ysgol. Hefyd roedd pryder am blant yn rhuthro i'r lôn fawr o'r llwybr drwy'r cae chwarae ym Mhenrhyn-coch. Penderfynwyd ysgrifennu at yr aelod cabinet oedd yn gyfrifol am faterion priffyrdd ynglñn â'r materion hyn. Adroddodd y Clerc fod 13 o bobl wedi ymateb i'r ymgynghoriad am gyfeiriad post Pen-bont, ac roedd 12 o'r rheini'n cytuno y byddai Pen-bont Rhydybeddau yn amgenach cyfeiriad post i'r darn hwnnw o'r gymuned na'r cyfeiriad Cwmsymlog. Penderfynwyd holi'r Post a fyddai hi'n bosib newid y cyfeiriad.

Ymwelodd yr heddwas cymunedol, Hefin Jones, a swyddog cynorthwyol â'r cyfarfod am ryw ugain munud. Eglurodd yr heddwas beth oedd bwriad y cyfarfodydd cyhoeddus yr oedd yr heddlu yn meddwl eu trefnu'n lleol gan gynnwys un yn Nhrefeurig mae'n debyg; hefyd trafododd sefyllfa gor-yrru yn yr ardal a beth oedd y trefniadau ar gyfer Nos Galan Gaeaf. Cytunodd i gadw golwg ar fannau lle'r oedd pobl yn parcio'n beryglus, yn enwedig ger cae chwarae Pen-bont.

Cafwyd trafodaeth ar gynigion y Cyngor Sir ynglŷn ag ad-drefnu addysg gynradd yng Ngheredigion. Cytunwyd bod y ddogfen yn un oedd yn dangos gwaith meddwl gofalus, a bod yr argymhellion yn rhai y gellid eu cefnogi ar y cyfan. Trafodwyd y trefniadau ar gyfer Sul y Cofio. Adroddodd Dai Rees Morgan a Richard Owen iddynt fod yng nghynhadledd flynyddol Un Llais Cymru ym Mhontrhydfendigaid ar 11 Hydref. Roedd y trefniadau'n effeithiol iawn, a chafwyd cynhadledd lwyddiannus. Adroddwyd hefyd fod y Cadeirydd a'r Cyng. Daniel Jones wedi cyfarfod Dr Clive King a oedd wedi cwyno nad oedd y Cyngor wedi hysbysebu'r Cyfarfod Agored ym mis Mai'n ddigonol. Cafwyd cyfle i wyntyllu cwynion Dr King yn drylwyr ac roedd ef wedi diolch am y cyfle i gyfarfod cynrychiolwyr y Cyngor.

Daethai gwahoddiad i'r Cyngor enwebu cynrychiolydd i Grŵp Ymgynghorol Fferm Wynt Nant-y-moch, ac enwebwyd y Cyng. Kari Walker ar gyfer y cyfarfod cyntaf. Daethai llythyr oddi wrth y Cyngor Sir yn holi barn y Cyngor am ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol; penderfynwyd ei drafod ym mis Tachwedd. Nodwyd fod y map o'r gymuned oedd yn sgwâr y Penrhyn yn dangos ôl traul a phenderfynwyd holi am brisiau ar gyfer ei adnewyddu. Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor Sir am y ceisiadau cynllunio canlynol oedd wedi'u penderfynu: Ger-y-nant, Penrhyn, codi tŷ — caniatawyd; Banc Llety Spence, Cwmerfyn, codi sied ar gyfer offer amaethyddol — caniatawyd; plot ger Y Gelli, Cefn-llwyd, codi tŷ — gwrthodwyd. Trafodwyd y ceisiadau newydd canlynol: arwydd newydd ger Garej Tŷ Mawr — nodwyd fod hwn eisoes wedi'i godi ac ni wnaed sylwadau; 3 Nantseilo, Penrhyn, estyniad — dim gwrthwynebiad. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 25 Tachwedd yn Hen Ysgol Trefeurig. Gellir darllen y cofnodion llawn ar wefan gymunedol yr ardal, sef www.trefeurig.org .


M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch

Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol

Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820375


# GOGINAN

### Cydymdeimlo

Trist yw cofnodi colled Sylvia Rix, Y Deri, Cwmbrwyno, a gollodd ei mam, Elena Lewis, yn ddiweddar. Ganed Elena ym Malta ple cyfarfu â'i darpar ŵr Lewis Lewis o Bontarfynach yn Gibraltar ar ôl y rhyfel ym 1946. Daeth yn ôl i Gymru i fyw gyda'i gŵr gan fagu pedwar o blant. Bu'n gweithio yng Ngwesty'r Hafod yn ogystal ag yn Ysbyty Bron-glais cyn ei hymddeoliad.

Ar ôl y gwasanaeth yn yr amlosgfa rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym Mynydd Bach, Pontarfynach. Pob cydymdeimlad gyda Sylvia a'i theulu.

### Llongyfarchiadau

Braf eto yw cael llongyfarch hogyn o'r ardal sydd yn gwneud yn dda yn y byd mabolgampau. Mae Lee Evans, Gwarllan, wedi ei ddewis i garfan tîm rygbi Llanelli dan 16. Mae Lee hefyd yn gapten ar dîm dan 16 Sir Benfro. Dal ati Lee ac efallai y gwelwn di yn gwisgo y Crys Coch rhyw ddiwrnod pan yn cynrychioli dy wlad.

### Dyffryn

Cynhaliwyd Cwrdd Diolch am y Cynhaeaf ar Nos Wener y 3ydd o Hydref. Cafwyd y bregeth gan Dr. Gwyn Davies, Penparcau a braf oedd croesawu ffrindiau o gapeli eraill yr ardal.

# DÔL-Y-BONT

### Cyfarfod Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch y Babell bnawn Sul, 26 Hydref, pryd y croesawyd y Parchedig Judith Morris i bregethu. Braf fu cael croesawu nifer o gyfeillion o'r Gerlan i ymuno â ni yn y gwasanaeth yma hefyd.

### Gwellhad

Blin ydym o ddeall nad yw Meirion Lewis, Cysgod y Gwynt wedi bod yn hwylus yn ddiweddar — gwellhad buan i ti Meirion.

### Bedydd

Fore Sul, 14 Medi, bedyddiwyd Macsen Dafydd Gwyn, Caerdydd, mab Rolant a Rhian (Dôl Werdd, gynt) yng Nghapel y Babell. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog y Parchedig Wyn Rhys Morris a'r Organyddes oedd Angharad Rowlands.



ytincer@googlemail.com

# ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL

### Urdd y Benywod

Dechrau Hydref treuliasom noson ddiddorol iawn yng nghwmni Ken Jones Troedrhiwsebon. Cawsom hanes ei fywyd diddorol a bu yn adrodd gwahanol rannau o'r llyfrau y mae wedi eu hysgrifennu dros y blynyddoedd. Dechrau mis Tachwedd daeth Wil Griffiths o Gomins-coch atom. Daeth a casgliad o lestri o'r Capeli hynny sydd wedi cau ac mi 'roedd ganddo hanesion difyr iawn am y llestri yma. Dangosodd i ni hefyd nifer fawr o fowlenni 'roedd wedi eu cerfio o goed a diddorol iawn oedd y nifer o bethau 'roedd wedi eu cerfio o goed wedi eu hachub o hen Gapel Seilo. Estynnwyd croeso i bawb gan Nancy Evans Tŷ Poeth a gorffennwyd y ddwy noson gyda phaned o de a pryd ysgafn.

### Pen blwydd

Pen blwydd hapus iawn i Irfon Meredith, Penbontbren, a ddathlodd ddiwrnod arbennig ar 13eg o Dachwedd. Dymuniadau gorau.

### Apêl yr Urdd

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn yng Nghanolfan Groeso E-on dydd Iau olaf Hydref. Daeth nifer dda ynghyd a diolch i bawb am eu cefnogaeth. Codwyd y swm o £100 gyda mwy i ddod eto pan agorir y botel arbennig a roddwyd yn rhodd i'r achos gan Irfon Meredith. Diolch o galon.

### Sioe Capel Bangor

Dymuna Pwyllgor y Sioe estyn gwahoddiad i unrhyw fudiad o fewn yr ardal fyddai a diddordeb i baratoi lluniaeth ar noson Sioe 2009. Mae hyn yn gyfle da i godi arian. Os am ragor o fanylion cysylltwch â Nerys Daniel 01970 880691

### Priodas

Dymuniadau gorau i Huw Jones, Tair Llyn, a Lizzie Pugh, y Borth ar eu priodas ddiwedd Awst. Cynhaliwyd y wledd briodas yn Tair Llyn a maent wedi ymgartrefu ym Mhenrhyn-coch.



### Cymdeithas Gôrawl Aberystwyth

Y "Requiem" gan Brahms yw'r prif ddarn y byddwn yn ei berfformio yn ein cyngerdd Nadolig eleni. Dr. David Russell Hulme fydd yn arwain y cor a'r gerddorfa fel arfer, a'r ddau unawdydd fydd Katherine Fuge (soprano) a Paul Carey Jones (bariton)
**Pryd**? Nos Sadwrn, Rhagfyr 13 am 8y.h.
**Ble**? Canolfan y Celfyddydau
*Prynwch eich tocynnau gan aelodau'r cor os yn bosibl, neu o'r Ganolfan*

# COLOFN MRS JONES

Mae'r gaeaf ar ein gwarthaf unwaith eto ac fe fydd hi'n adfent ac yn Nadolig cyn inni droi rownd.A hyd yn oed petawn i yn byw mewn byncar tanddaearol a byth yn gweld na golau dydd na chalendr, fe fyddwn i yn gwybod hynny dim ond o edrych y post sydd yn dod i'r tŷ acw. Un llythyr o unrhyw bwys a ddaeth inni ar hyd yr wythnos ddiwethaf a bil oedd hwnnw, catalogau anrhegion a llythyrau begio oedd y cwbl o'r gweddill.

Mae'n rhaid i mi gyfaddef fod y catalogau yn medru bod yn ddigon buddiol. Mae'n handi cael cyfle i weld beth sydd ar gael allai wneud anrhegion addas i bobl er bod syniadau rhai o'r cylchgronau hyn o'r hyn sydd yn addas yn ymylu ar ynfydrwydd, ni allaf feddwl am unrhyw un o'm teulu na'm cyfeillion a hoffai ddafad goncrit i sefyll ar eu lawnt. Wedi'r cyfan, mae nhw un ai yn byw yn y wlad ac yn gallu gweld digon o ddefaid a hynny heb i mi dalu am un neu yn byw mewn tref ac yn berchen gerddi rhy soffistiedig i gartrefu dafad! Yn yr un modd, ni allaf feddwl yr hoffai yr un ohonynt gêm rasio neiniau a teidiau mewn cadeiriau olwynion neu siocledi ffurf llygaid a rhannau eraill o'r corff.

Mae rhai catalogau, wrth gwrs, yn perthyn i rhyw dir canol rhwng hysbysebu noeth a bod yn elusennol, cefais sawl catalog yn fy annog i noddi anifail mewn sŵ neu warchodfa neu i anfon anifail neu hadau neu gyfarpar tarmor i wella byd tlodion y trydydd byd. Byddaf yn oedi mwy dros y rhain ond, hyd yn hyn, nid wyf wedi meiddio prynu / fabwysiadu dim ar ran neb arall. Byddai'n rhy hawdd pechu car a chyfaill. Meddyliwch am funud, y mae gennych Anti Jên enwog am ei hystyfnigrwydd - onid annoeth, braidd, fyddai prynu mul i Kenya neu noddi gwarchodfa fulod yn ei henw? A fyddai prynu buwch yn enw eich chwaer yng nghyfraith yn rhoi'r neges anghywir iddi am eich barn chi amdani? Fe allai prynu anrheg fel hyn gychwyn rhyfel deuluol a wnâi i'r Ail Ryfel Byd edrych fel ffrae ddiniwed er fe fyddai hynny, o leiaf, yn golygu na fyddai gennych angen prynu anrheg Nadolig i neb byth mwy. Ac y mae cynlluniau fel hyn yn anwybyddu un ffaith sylfaenol amdanom, ein hoffter o dderbyn rhywbeth inni ein hunain, o gael ein presant ni. Nid oeddwn i wedi meddwl am hyn hyd oni glywais am ddyn yr oedd ei deulu wedi prynu cryn fferm ar gyfer tlodion Affrica yn ei enw dim ond i'w glywed yn dweud yn pathetig fod hyn, wrth gwrs, yn ganmoladwy iawn,ond fe fyddai wedi hoffi rhywbeth bach iddo ef ei hun i'w agor fore'r Nadolig.

Ond, fel y dywedais, gall y catalogau fod o fudd, peth nas gellir ei ddweud gyda'r llythyrau begio.Wrth gwrs, elusennau sydd wrthi, yn manteisio yn ddigon naturiol ar haelioni traddodiadol y Nadolig. Ond maent weithiau yn medru gadael rhyw hen flas drwg yn y geg a hynny am fegera yn enwedig pan maent yn cyfuno hynny a rhoi 'anrheg' o labeli neu feiro i chwi. Onid yw hi yn deg gofyn faint o help sydd ganddynt eu angen os ydyn nhw yn medru gwneud peth fel hyn? Neu os ydynt yn medru gwario arian yn hael ar hysbysebion teledu a chyflogi cwmniau hysbysebu. Faint o angen arian sydd gan yr NSPCC a Christian Aid, er enghraifft, a faint o'r arian a godir ganddynt sydd yn cyrraedd ei bwrpas heb gael ei wario ar hysbysebion? A mae hi'n deg inni ofyn y cwestiwn oherwydd ni sydd yn rhoi, ein harian ni a werir mor ffri. A thybed pa mor lwyddiannus yw'r ymgyrchu hwn? Onid oes gennym i gyd ein hoff elusennau amrywiol sydd yn derbyn rhoddion gennym a rhesymau personol dros y dewisiadau hynny sydd yn golygu na newidiwn yn hawdd....beth bynnag, buan y daw hyn i ben, rwyf eisoes wedi dechrau pendroni pwy fydd y cyntaf i anfon cerdyn Nadolig inni oherwydd nid oes unrhyw amheuaeth nad dyna'r cam nesaf yn y calendr.


# PENRHYN-COCH

## Suliau Rhagfyr Horeb

*http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php*

| | | |
|---|---|---|
| | 2.30 | Oedfa Gymun Gweinidog |
| **14** | 10.30 | Oedfa'r Garol a'r Gair |
| **21** | 2.00 | Oedfa Nadolig y Plant |
| **25** | 7.30 | Oedfa Fore Nadolig |
| **28** | 10.30 | Oedfa Ddiwedd Blwyddyn Gweinidog |
| **Ionawr 2008** | | |
| **4** | 2.30 | Oedfa Gymun Ddechrau Blwyddyn Gweinidog |

## Cyfrol o ddiddordeb lleol



Newydd ei chyhoeddi y mae cyfrol gan Joe South, sylfaenydd Rhoserchan — y ganolfan a sefydlwyd yng Nghapel Seion ond sydd erbyn hyn uwchlaw Penrhyn-coch. Cyhoeddwyd Poppy dream — *the story of an English addict* gan authorhouse ISBN 9781433901282. Mae Joe South bellach yn byw yn Asuncion, Paraguay, De America.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Fe fuom yn ymweld ag Amgueddfa Ceredigion ar nos iau, 9fed o Hydref. Fel mae pawb yn gwybod mae yr Amgueddfa wedi ei sefydlu ers rhai blynyddoedd bellach yn hen Sinema y Coliseum yn Aberystwyth. Croesawyd ni yno gan Jez Danks ac ar ôl rhoi tipyn o hanes yr Amgueddfa fe aeth a ni o amgylch y lle. Rhyfeddodau lawer i'w gweld yno, yr amser oedd yn mynd rhy gyflym i weld popeth ar yr un noson ond er hynny yn werth ei gweld. Atgofion hapus iawn gan rai o'r aelodau am yr amser buom yn mynychu'r adeilad pan oedd yn sinema ond erbyn heddiw er bod rhai o'r seddau a phethau amlwg o'r hen amser i'w gweld yno o hyd yr oedd heddiw hefyd yn llawn o drysorau o'r gorffennol oedd yn gwerth eu gweld. Noson bythgofiadwy. Diolchwyd i Mr Danks gan ein llywydd Mairwen, yna ar ôl ymweld â'r Amgueddfa aethom i Llety Parc i gael swper ac hwnnw fel arfer yn flasus dros ben. Aed tua thre gyda phawb wedi mwynhau y noson yn fawr iawn.

## Ychwanegiad i stori'r

Fel y gwelsoch yn y rhifyn diwethaf o'r *Tincer* hanes cyn ysgrif mam Mairwen. Wel! Mae tipyn o hanes i'r Dr D. J. Davies, yr oedd yn hannu o Geredigion ac yn athro ieithoedd yn yr hen Ysgol Sir yn Aber. Yn ôl yr hanes roedd yn ŵr clyfar iawn ond fel deallir yn dipyn o rebel dros yr iaith Gymraeg ac o'r herwydd fe fynnodd un o'r Llywodraethwyr ei fod yn cael ei ymddiswyddo o'i waith fel athro a gadael yr ysgol a felly y bu. Ond debyg iawn fod hyn wedi peri tipyn o broblem i'r ysgol a bu yna brotestio mawr gan rai o'r athrawon a chan ddisgyblion yr ysgol. Bu hyd yn oed rhai o'r bechgyn lawr yn y dref yn cerdded a phrotestio er mwyn cael Dr Davies yn ôl fel athro unwaith eto i'r ysgol. Roedd rhieni hefyd am ei gael yn ôl, roedd un tad wedi dweud oni bai Dr Davies byddai ei ferch ef ddim wedi dod ymlaen yn yr ysgol gyda'i gwaith cystal. Felly roedd y gŵr hwn am eu gael yn ôl fel athro. Felly ar ôl yr holl helynt a phrotestio penderfynwyd gwahodd Dr Davies yn ôl i'r ysgol fel athro unwaith eto. A bu yno am rai blynyddoedd wedyn.
Mairwen

## Cymdeithas y Penrhyn

"Rhyfeddodau'r goedwig, oddi mewn ac allan" oedd testun sgwrs John Glant Griffiths, ein gŵr gwadd fis Hydref. Gyda chymorth sleidiau, tywysodd ni o gwmpas ardal anghysbell, hudolus ei filltir sgwâr. Ardal hyfryd yn llawn gwrthrychau cudd a gwyrthiau byd natur. Bu Mr Griffiths yn geidwad bywyd gwyllt gyda'r Comisiwn Coedwigaeth am flynyddoedd lawer, ac roedd y cariad angerddol yma at ei fro yn amlygu ei hun yn ei sgwrs. Cychwynodd y siwrne yn Ystrad Fflur a llonyddwch cyfrinid y mynachdy, cyn dringo i unigeddau'r llwybrau coediog gyda'i adfeilion a'i rhaeadrau. Gwelsom Goedwig Tywi, lôn y porthmyn, y Llyn Du, Moel Prysg, Nant Stalwen, Pwll yr Olchfa, Rhos Gelli Gron a gweddillion y tai unnos. Ymlaen wedyn i Drawsgoed, Abermagwr a chael cipolwg ar y gweithfeydd mwyn, Ysbyty Ystwyth a Phont-rhyd-y-groes. Cawsom hanes diddorol Plasdy'r Hafod, cyn troi am Fwlch Nant yr Arian, Nant-y-Moch, Chwarel yr Hafan, Pwll Glas a Phlas y Mynydd. Gwledd yn wir! Pa eisiau crwydro'n bell â'r fath ryfeddodau ar drothwy'r drws a golygfeydd godidog Ceredigion i'n denu?
Noson gofiadwy a hyfryd oedd cael croesawu Mrs Griffiths yn ogystal i'r gymdeithas.

## Sefydliad y Merched

Ar ddiwedd ein blwyddyn gyntaf, yr ydym yn edrych ymlaen at ein cyfarfod blynyddol cyntaf ar 26ain o Dachwedd dan arweiniad Mrs Brenda Wright, cadeirydd trefnu y ffederasiwn. Mae'r flwyddyn wedi bod yn un llwyddiannus, gan gynnwys hanes tegannau, elusennau, yr amgylchedd, coginio, crefftau, ambell gêm a chasglu sbwriel. Rydym yn gobeithio edrych yn bert iawn erbyn y Nadolig wedi i ni weld beth sydd gyda Boots i'n helpu ni ar y 12fed o'r mis yma.

## Ymddeolwyr

Dydd Mercher, 5ed Tachwedd, aethom i mewn i siediau yng nghwmni Dr Clive Williams, a mawr oedd ein syndod pan welsom pa mor wahanol oedd y siediau a'u cynnwys — yn ogystal â diddordebau ei ffrindiau a oedd mor garedig a'n gwahodd i mewn i'w "cestyll". Nid yw Tardis Dr Who i'w cymharu â nhw. Enillydd y raffl oedd Mr Job McGauley a oedd wedi paratoi te i ni gyda'i wraig Mavis. Ein cyfarfod nesaf fydd ein cinio Nadolig ym Mhlas Antaron ar Ragfyr 3ydd.

## Diolch

Dymuna Cerys Humphreys ddiolch i bawb sydd wedi rhoi cefnogaeth iddi yn ystod y cyfnod diweddar. Er ei bod yn siomedig iawn na fedrai fynd i Batagonia oherwydd salwch, mae MENCAP wedi cytuno y caiff yr arian a gododd Cerys (sydd yn ei choffrau) ei drosglwyddo i daith arall yn 2009. Felly, mae yna rhyw newyddion da o sefyllfa rwystredig iawn!

## Clwb Cinio Cymunedol

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 26 Tachwedd a 19 a 24 Rhagfyr. Cysylltwch â Egryn Evans - 828 987 — am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Eluned Morgan, 23 Glanceulan, ar farwolaeth ei mab-yng-nghyfraith yn Llanrhystud.



Yr Athro Peter Neil, a ordeiniwyd ym Mehefin yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi gan Archesgob Cymru, y Gwir Barchedig Dr Barry Morgan. Mae'r Parchedig Athro Peter Neil, sy'n dod yn wreiddiol o Ynys Bute ar arfordir gorllewin yr Alban, yn bennaeth yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes er 2003 ac mae'n aelod yn Eglwys Sant Mihangel, Aberystwyth. Yn ddiweddar dechreuodd ar gyfnod newydd, yn gweithio fel Curad gyda'r Parchg John Livingstone yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch, Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor ac Eglwys Sant Pedr, Elerch.

ytincertachwedd08.indd 12 18/11/08 09:30:58

## Richard Iorwerth Jenkins (1922-2008)

Gan imi fethu bod yn angladd y cyfaill Dic, Gelli Greigiog, Penrhyn-coch, rwy'n falch o gael teyrngedu iddo a minnau wedi ei 'nabod er pan oeddwn yn blentyn yn Nhaliesin. Fel Dic Ynys Greigiog, Eglwys-fach yr oedd pawb yn ei nabod ac yn hen gynefin ei deulu y bu byw ar hyd ei oes ar wahân i'r misoedd olaf yn y Penrhyn. Mewn llyfr diddorol gan Hugh Rees, Dyfi View, Eglwys-fach, lle croniclodd hanes Ysgubor-y-coed gan enwi tai, ffermydd a phobl mae'n cyfeirio at William Jenkins, Ynys Greigiog fel 'galluog ysgrythurwr'. Un o feibion y gwrda hwn oedd William a briododd â Margaret un o blant Ynys-eidiol,a nhw oedd rhieni Richard Iorwerth, William John ac Anne Elisabeth. Fel ei dad bu Dic yn flaenor a thrysorydd yng nghapel y Graig, Ffwrnes, am gyfnod hir a llawenydd iddo oedd fod Heulwen ei ferch wedi'i ddilyn fel trysorydd.

Mynychodd Dic Ysgol Gynradd Eglwys-fach cyn mynd i Ysgol Uwchradd Machynlleth lle bu'n ddisgybl hynod o ddisglair yn ôl y sôn. Wedi gadael ysgol adre i ymarfer 'crefft gyntaf dynol-ryw', gyda'i dad a'i frawd a'r bartneriaeth rhwng y brodyr yn un hyfryd gydol y blynyddoedd.Ar wahân i amaethu bu'r brodyr yn fawr eu gwasanaeth yn y capel ac yng nghymuned Eglwys-fach ac mae'n dda cael cydnabod y gwasanaeth ardderchog. Gwasanaethodd Dic hefyd ar bwyllgorau Cymdeithas y Defaid Mynydd Cymraeg a'r Co-op yn Aberystwyth. Roedd y rhieni yn fyw pan bregethais yn y Graig am y tro cyntaf ac yr oedd cael eu cefnogaeth nhw a'u plant yn hwb imi ar gychwyn y daith i'r weinidogaeth. A heddiw diolchaf am 'y cwmwl tystion'.

Bu Dic farw bedwar mis cyn iddo fe ac Anne ddathlu eu priodas aur. Roedd Anne, merch William John ac Eirlys Jenkins, fferm y Gelli, Taliesin, yn yr un dosbarth a mi yn Ysgol Llangynfelyn ac yr oedd William ei brawd yn yr un dosbarth a Iorwerth fy mrawd a gollwyd ym 1993 yn 53 oed. Bu'r hen gysylltiad yn fodd inni glosio at ein gilydd ar hyd y blynyddoedd. Daeth Heulwen, Einion ac Ethel i lonni bywyd yr aelwyd a maes o law cafodd tad-cu a mam-gu gwmni'r wyrion a'r wyresau — Rhys, Rhodri, Richard, Alwenna, Gwion, Gerallt a Tomos. Buont o gysur mawr i Dic yn ystod ei lesgedd. Roedd Dic yn meddwl y byd o'i deulu ac fel ei hynafiaid



roedd yn fawr ei groeso i lu mawr o gyfeillion fyddai'n galw yn y cartref. A phob tro y byddem yn cwrdd â'n gilydd roeddwn yn cael y teimlad ei fod yn falch o'm gweld a chael seiadu ynglŷn a phethau'r byd a'r betws. Roedd hynny'n wir y tro olaf y gwelais ef yn wael iawn yn Ysbyty Bro Ddyfi ac yntau'n canmol mawr ofal y rhai oedd yn gweini arno. Roedd yn briodol fod y cyfraniadau hael o £1000 wedi'u cyflwyno i Uned Twymyn yn yr ysbyty a diolchir i bawb a gyfrannodd.

Diolch am fywyd a gwasanaeth Dic ac am ei gyfeillgarwch gydol y blynyddoedd a chofion annwyl at Anne a'r teulu yn eu chwithdod o golli un fu'n dŵr cadarn iddyn nhw. Bu'r cynhebrwng yn Rehoboth, Taliesin, ar 19 Gorffennaf dan arweiniad ei gyn-weinidog y Parchedig Elwyn Pryse yn cael ei gynorthwyo gan y Parchg.Aubrey Newell, gydag Eiriona Metcalfe wrth yr organ. Daearwyd y gweddillion ym mynwent Llangynfelyn yn ymyl rhieni Anne, ei thad-cu a'i mam-gu, William J. ac Anne E. Jenkins, Bwlcheinion, Ffwrnes, a'i rhieni hithau, John a Mary Evans fferm Tanllan.

**W.J.Edwards**

## Croeso

Croeso i Rhodri Lloyd Morris - yn wreiddiol o Bontrhydyfen, Port Talbot — sydd wedi symud i fyw i' 2, Y Felin. Mae Rhodri yn gweithio fel Datblygydd meddalwedd yn Uned Gyfrifiaduron LLGC ac yn dysgu Cymraeg.

## Recordio

Bu Parti'r Penrhyn - y parti plygain, a'r ddeuawd Rhiannon Ifans a Trefor Puw yn recordio yn ddiweddar gyda Chwmni Recordiau Sain yn Eglwys Bont-goch - ar gyfer CD a fydd allan erbyn y Nadolig. Ymhlith yr artistiaid eraill bydd: Parti Cut Lloi; Meibion Llywarch; Arfon Gwilym, Geralllt Rhun a Dyfan Roberts; Triawd Foeldryhaearan (yn cynnwys Angharad Lewis a'i chefnder Guto Lewis - sef mab a merch dau o'r parti fydd yn canu gyda taid); Bechgyn Pen-llys; Cogia Llanfihangel ac Emlyn ac Arwyn Evans.

Cofiwch am blygain Penrhyn-coch a gynhelir yn ôl yr arfer ar y trydydd nos Iau yn Rhagfyr - 18 Rhagfyr am 7.30 yn Eglwys Sant Ioan dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn.

## Ennill gwobr

Llongyfarchiadau i Sue Hughes, Ger-y-llan, am ennill tocyn llyfr £20 yng nghystadleuaeth ein chwaer bapur *Yr Angor* y mis diwethaf.

## Cwrdd gweddi

Cynhelir y cwrdd gweddi misol yn Horeb nos Fawrth 25 Tachwedd am 7.30.

## Urdd Gwragedd Sant Ioan Penrhyn-coch

Cafwyd noson ddiddorol ym mis Hydref yng nghwmni Dr Andrew Agnew a'i wraig sy'n dod o Ffwrnais. Darlithydd Bioleg sydd bellach wedi ymddeol yw Dr Agnew , mi fu yn gweithio dramor am gyfnod ac fel y gwelwyd yn y sleidiau a ddangosodd, mae'n dal i ymddiddori mewn bywyd ac anifeiliaid gwyllt yn Nairobi, dwyrain yr Affrig.

Y Parchedig Judith Morris, sef gweinidog Horeb oedd ein gwestai ym Mis Tachwedd, cawsom noson ddiddorol iawn yn ei chwmni, gobeithio y cawn eto gyd-gymdeithasu â Chapel Horeb yn y dyfodol.

Ar y cyntaf o Ragfyr yr Athro Peter Neil fydd ein gwestai.

## Eglwys Sant Ioan

Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch Eglwys Sant Ioan ar ddydd Mercher Hydref 8fed, gyda chymun bendigaid yn y bore a Gospel a phregeth yn yr hwyr. Arweiniwyd gan y Parchedig John Livingstone a thraddodwyd y bregeth gan y Parchedig John Matthews, Aber-porth. Mwynhawyd swper ysgafn yn neuadd yr Eglwys ar ôl y cyfarfod. Bu plant yr ysgol Sul yn dathlu eu diolchgarwch hwy ar ddydd Sul 12fed o Hydref dan arweiniad yr Hybarch Hywel Jones yn absenoldeb y Ficer. Y dydd Mawrth canlynol bu plant yr ysgol feithrin yn cyflwyno rhoddion mewn gwasanaeth o ddiolchgarwch.

Llongyfarchiadau i Domos Livingstone, Y Ficerdy, ar ei briodas yn ddiweddar.

Yn ystod y foreol weddi a gynhaliwyd ar ddydd Sul Hydref 26ain, bedyddiwyd Leah Elizabeth Lockyer o Comins-coch, sef wyres Mr a Mrs Brad Lockyer, Tymawr.

Ar nos Lun Tachwedd y 3ydd, dathlwyd y cymun bendigaid yn Nygwyl y Meirw pan oleuwyd 73 o ganhwyllau mewn ffurf croes i gofio am berthnasau ac anwyliaid a enwyd yn ystod y gwasanaeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad i'r Parchedig John Livingstone a'i wraig ar golli tad Mrs Livingstone - Mr Howells, o Crosshands yn ddiweddar.

## O'r Cynulliad – Elin Jones AC

Ar ddechrau mis Hydref fe gafwyd cyhoeddiad o ddiddordeb mawr i lawer o drigolion Ceredigion, sef ym mhle fydd Eisteddfod yr Urdd yn cael ei chynnal pan fydd hi'n ymweld â'r sir yn 2010. Mae hyn wedi bod yn destun trafod mawr ar hyd a lled y sir ac rwy'n falch bod yr Urdd wedi cadarnhau mai ar ystad Llanerchaeron y cynhelir y brifwyl ymhen blwyddyn a hanner. Dyma safle sydd o fewn cyrraedd i bob rhan o Geredigion ac rwy felly'n gobeithio y bydd trigolion o bob rhan o'r sir yn cyfrannu tuag at y gwaith o drefnu sydd eisoes yn mynd yn ei flaen.

Daeth newydd da i'r Urdd yn genedlaethol hefyd wrth i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi cytundeb ar y cyd ag Awdurdodau Lleol Cymru ar sut i ariannu'r Eisteddfodau bob blwyddyn. O hyn allan bydd pob awdurdod lleol yn rhannu'r gost o gyfrannu £150,000 yn flynyddol gyda Llywodraeth y Cynulliad yna'n cyfrannu £150,000 arall tuag at gostau'r brifwyl. Rwy'n mawr obeithio y bydd hyn yn rhoi sail ariannol gadarn i Eisteddfod 2010.



Yn ddiweddar, fe gyhoeddodd y Gweinidog Iechyd, Edwina Hart AC, ei bod yn bwriadu parhau gyda'i chynllun i gael gwared ar y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru drwy eu huno gyda'r Ymddiriedolaethau Iechyd. Mae hyn yn gam pwysig iawn er mwyn lleihau biwrocratiaeth yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ac rwy'n gobeithio y bydd mwy o arian ar gael i wario ar ofal iechyd yn lleol o ganlyniad.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf rwyf wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled Ceredigion. Roedd hi'n fraint i agor ystafell gyfrifiaduron newydd 'Dwynwen 10' yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth, a chael cwrdd â staff a disgyblion yr ysgol sydd newydd ddechrau dilyn cwrs y Bac Cymreig. Roeddwn hefyd yn falch iawn o gael fy ngwahodd i annerch cyfarfod blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru a gynhaliwyd yn Llanwnnen eleni, ac rwyf wedi mynychu noson goffi er budd Cyfeillion Cartref yr Hafod yn Aberteifi yn ddiweddar.

**Elin Jones AC**


# Adolygiad

***Sŵ Gerallt Jones Cantorion weithiau: grŵp o chwe charol. £6***

Ceir eglurhad am deitl y gyfrol hon yng nghyflwyniad yr awdur. Cafodd wahoddiad yn 2001 i fod yn Lywydd Anhydeddus i griw bach o gantorion a gyfarfyddai i ganu "weithiau". Penderfynodd gyfwyno carol iddynt yn rhodd yn Nhachwedd pob blwyddyn a dyna yw y rhain. 'In dulci jubilo' o'r Almaen, 'Hwiangerdd I'r Crist' o Ynysoedd Heledd, dwy draddodiadol Gymreig — 'Carol y blwch' a 'Difyrrwch gwyr Caernarfon; a dwy wreiddiol ganddi hi ei hun — 'Cyfrin lenni'r nos', a 'Brenhinoedd' .

Gellir eu canu gan unrhyw grŵp o bedwar llais, o unrhyw nifer ac unrhyw dro!

Mae'n gyfrol lanwaith iawn wedi ei dylunio gan Dylan Nereus, y Bala. Mae ar gael oddi wrth Sŵ Jones, Dôl-y-bont neu Cerdd Ystwyth.




# Corau meibion - adfywiad?

Gyda llwyddiant enfawr Côr Meibion Froncysyllte yn ddiweddar, a buddugoliaeth 'Only men aloud' ar y rhaglen deledu 'The last choir standing', mae'n ymddangos bod corau meibion yn fwy ffasiynol nag erioed. Roedd yn amlwg i unrhyw un a ddilynnodd y cystadlaethau corau meibion yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni fod yna draws-doriad da o ran oedran yn cymryd rhan y dyddiau hyn. Mae Côr Meibion Aberystwyth yn tynnu'n raddol at ei 50fed pen bwydd, a'r nod fydd sicrhau, erbyn dathlu'r hanner canrif yn 2012, ein bod yn dal i fynd o nerth i nerth, ac yn cynnal rhaglen amrywiol a diddorol a pherfformio ledled Cymru a thu hwnt.

Dros y misoedd diwethaf, fe fu'r côr yn cymryd rhan mewn cyngherddau ar draws y Canolbarth - yn Aberdyfi, Nhrefeglwys, Tregaron, Tywyn, a Phontrhydfendigaid - ac ar ddechrau mis Tachwedd cafwyd taith i Swindon, i rannu'r llwyfan mewn cyngerdd gyda Chôr Meibion Swindon a'r gantores Bethan Dudley, sy'n dod yn wreiddiol o ardal Aberystwyth.

Hefyd fe recordiwyd y côr yng nghapel Bethel Aberystwyth ar gyfer ffilm a fydd yn hybu Cymru yn yr yr Unol Daleithau erbyn cystadleuaeth y Cwpan Ryder 2010.

Mae'r côr yn awyddus i ddenu aelodau newydd i gryfhau'r rhengoedd. Ymunodd ambell aelod newydd yn ddiweddar, ac y mae croeso i unrhyw rai eraill sydd â diddordeb mewn canu. Dywedodd Carol Davies, Cyfarwyddwr Cerdd y Côr Meibion, ei bod yn awyddus i unrhyw un sydd ag unrhyw ddiddordeb mewn canu corawl deimlo bod drws agored iddyn nhw ymuno, neu o leiaf i ddangos eu diddordeb. "Does dim rhaid i neb aros am wahoddiad cyn dod", meddai. "a 'does dim rhaid bod yn Bavarotti neu'n Fryn Terfel i ganu mewn côr!"

Cynhelir yr ymarferion wythnosol yn neuadd Clwb yr Awyrlu (RAFA) yn Stryd y Bont, Aberystwyth — am 7.00 bob nos Iau. Mae croeso mawr i unrhyw un ddod heibio ar noson ymarfer i gael blas, neu i gysylltu ag aelod o'r côr am sgwrs — heb unrhyw ymrwymiad. Os hoffech chi ddangos diddordeb neu wybod mwy, cysylltwch ag un o'r rhain:
Lyn Jones (Cadeirydd) - 01974 202277, Mervyn Hughes -01970 828001
Peter Duggan 01970 624197, neu Hywel Wyn Jones - 01974 202980

# Colofn y C.Ff.I.

C.Ff.I. CEREDIGION Y.F.C.

### Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Sir

Nos Fercher, yr 17eg o Fedi, cynhaliwyd pwyllgor blynyddol y sir yn neuadd Ciliau Aeron. Ethlowyd y Cyng. Haydn Richards, Lowtre, Llanwnnen yn Lywydd y Sir am y flwyddyn 2008-09 a Mr. Glyn Davies, Lloyd Jack, Felin-fach yn is-lywydd. Etholwyd Mr. Daniel Downes, C.Ff.I. Llangeitho yn Gadeirydd y sir a Mr. Arwel Jones, C.Ff.I. Mydroilyn yn is-gadeirydd. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau iddynt gyda'r gwaith.

### Aelodau Cyswllt

Wedi mynd yn rhy hen i fod yn aelod o'r C.Ff.I.? Peidiwch ag oedi — mae cyfle gwych i unrhyw un sydd dros 26 oed i ddod yn aelod cyswllt! Am bris rhesymol o £10, cewch 3 rhifyn o gylchgrawn y sir *Ar Dân* wedi'i ddanfon i chi drwy'r post, cewch y cyfle i fynd ar dripiau cenedlaethol gyda'r mudiad a'r cyfle i brynu pecyn i fynd i'r pentref ieuenctid adeg y sioe frenhinol!! Yn ogystal â hyn, cynhelir noson arbennig o 'Rhowch gynnig arni!' i'r aelodau cyswllt ar yr 28ain o Dachwedd. Cysylltwch â'r swyddfa am fwy o fanylion ar (01545) 571 333.

### Digwyddiadau

**Hydref 30 a Tachwedd 1**
Eisteddfod y Sir ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan. Bydd yr Eisteddfod yn cael ei gwe-ddarlledu o 6y.h. hyd at y diwedd ar y nos Sadwrn — ewch i wefan y sir **www.yfc-ceredigion.org.uk** i gael blas o'r cystadlu!
**Tachwedd 15** Dawns Dewis Llysgenhades Sioe Frenhinol 2010 yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth

ytincertachwedd08.indd 14 18/11/08 09:44:03

# Llyfrau

***Dolen Cymru***
***Wales' African Twin: the story of Dolen Cymru, The Wales Lesotho link Cyhoeddiadau'r Gair, 2008. 160t £9.95***




Mae'r cyswllt rhwng Cymru a Lesotho yn un sydd wedi dod yn llawer mwy cydnabyddedig ac wedi ei sefydlu yn hanes Cymru oherwydd gwaith ysbrydoledig Dolen Cymru. Yn llyfr Paul Williams dogfennir yr hanes a'r storïau y tu ôl i niferoedd ddarganfyddiadau, heriau a llwyddiannau Dolen Cymru wrth iddynt greu a datblygu cyswllt rhwng gwlad a gwlad yn Lesotho yn Ne Affrica.

Ers iddo roi'r gorau i'w ddyletswyddau fel ysgrifennydd Dolen Cymru mae Paul Williams wedi bod yn ysgrifennu'n eiddgar am hanes y cyswllt Cymru-Lesotho a arweiniodd at y '*Wales' African Twin*' treiddgar a diddorol ei ddarllen.

Ers iddo gael ei lansio dros ugain mlynedd yn ôl gyda'r syniad o ffurfio cyswllt rhwng Cymru a gwlad oedd yn datblygu, mae Dolen Cymru wedi cael ei wthio ymlaen gan nifer o ddigwyddiadau codi arian, yn ogystal ag ymrwymiad mwy diweddar y Tywysog Harri. Wedi ei gyffwrdd yn ystod yr amser a dreuliodd yn Lesotho yn ystod ei flwyddyn allan, cymerodd y Tywysog arno'r rôl o Noddwr Dolen Cymru yn 2007, gan wneud cyfraniad pwysig i'r mudiad. Dathlwyd ei ymrwymiad i Ddolen Cymru eleni pan fynychodd Gynhadledd Lesotho yn Stadiwm y Mileniwm ym mis Mehefin, lle cafodd y llyfr ei lansio.

Bu gwaith Dolen Cymru dros yr ugain mlynedd diwethaf yn llwyddiannus ac effeithiol wrth iddynt hyrwyddo cyfeillgarwch a newid bywydau pobl yng Nghymru a Lesotho fel ei gilydd ac mae'r llyfr yn manylu ar lawer o'r cysylltiadau sydd wedi eu creu rhwng llawer o ysgolion, sefydliadau iechyd ac eglwysi. Efallai eich bod yn ymddangos ynddo, hyd yn oed!

Gellir prynu '*Wales' African Twin*' yn awr o Ddolen Cymru. Cysylltwch â'r swyddfa ar 02920 497 390 neu trwy e-bostio swyddfa@dolencymru.org neu mewn siop lyfrau neu oddi ar www.gwales.com

# YSGOL CRAIG YR WYLFA

## Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd y cwrdd diolchgarwch blynyddol yn neuadd yr ysgol prynhawn dydd Mercher y 15fed o Hydref. Cymerodd pob un o'r plant ran yn y gwasanaeth ac i orffen dangoswyd fideo am elusen 'School children for children'. Mae'r elusen yn codi arian i blant allan yn Kenya sydd wedi colli eu rhieni yn y rhyfel cartref.

## Taith Gerdded Noddedig

Yn dilyn y cwrdd diolchgarwch aeth y plant ati i godi arian ar gyfer yr elusen am 2008. Penderfynodd y plant gerdded ar hyd y traeth am ddwy filltir a hanner cyn ei throi hi nol am yr ysgol. Llwyddodd pob plentyn i godi tipyn o arian a bydd hanner y cyfanswm yn cael ei hel i'r Affrig a'r hanner arall yn cael ei gadw gan yr ysgol.

## Trawsgwlad y Cylch

Aeth 26 o blant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 i gystadlu yn nhrawsgwlad y cylch ar gaeau'r Ficerdy, Aberystwyth ar y 17eg o Hydref. Daeth nifer ohonynt yn yr ugain uchaf a rhaid llongyfarch pob plentyn am orffen y cwrs.

## Ymweliadau

- Bu pedwrawd llinnynol o'r enw y 'Mavron Quartet' yn chwarae i'r plant ar y 15ed o Hydref. Cafwyd bore hyfryd yn gwrando ar ddarnau gan Haydn, Mozart a chyfansoddwyr enwog eraill.
- Bu'r nyrs ddeintyddol, Terry Brown, yn siarad gyda'r dosbarthiadau am bwysigrwydd glendid deintyddol a sut mae golchi eich dannedd yn gywir.

## Yr Urdd

Cafwyd noson o ddawnsio llinell yng nghwmni Joyce Bowen cyn hanner tymor. Cafwyd tipyn o hwyl wrth i Mrs B. fynd a'r plant drwy'r symudiadau ac roedd pob un ohonynt wedi blino'n lan erbyn diwedd y sesiwn. Diolch i Joyce am ddod draw atom.

Ar Nos Fawrth y 4ydd o Dachwedd bu'r plant yn stwffio Guto. Bu pum grwp wrthi'n creu Guto ond yn anffodus nid oedd gennym unrhyw wybodaeth am yr un goelcerth yn y pentref ar y noson ganlynol. Aethpwyd ati felly i godi coelcerth ar y bore canlynol a chafwyd prynhawn i'w gofio wrth i'r pump Guto cael eu llosgi yng ngardd yr ysgol.

## Ysgol ar Gau

Bydd yr ysgol ar gau am ddeuddydd ar y 14eg a'r 17fed o Dachwedd ar gyfer diwrnodau H.M.S. Byddwn yn cau ar gyfer y Nadolig am 2p.m. ar y 19eg o Ragfyr.



Y Daith Cerdded



Y Daith Cerdded



Pedwarawd Mavron



Y Goelcerth

ytincertachwedd08.indd 15 18/11/08 09:31:14

# CANMLWYDDIANT WILLIAM LLEWELYN EDWARDS

## Atgofion

Eleni 'roedd Capel y Garn yn dathlu Canmlwyddiant geni un o'i phrif gerddorion, sef W. Llewelyn Edwards (1908-2000) mewn cymanfa fer. Fe'i ganwyd ar 18 Tachwedd 1908. Darlledwyd y gymanfa dan arweiniad Alan Wynne Jones, ysgrifennydd y Garn, yn y gyfres Caniadaeth y Cysegr brynhawn Sul 16 Tachwedd i'w hail ddarlledu yn gynnar - 5.29 - fore Sul 23 Tachwedd

Dau frawd oedd yn ffermio Ruel Uchaf, William Llewelyn ac Alfred, y ddau yn gerddorol ac yn gaffaeliad mawr i'r capel hwn. Gydag Alfred oedd y llais. Ef oedd y codwr canu, a phan oedd yn iau byddai'n canu unawdau a deuawdau yn 'steddfodau'r fro. Mae llawer yn ei gofio yn canu yn 'Steddfod y Tylwythau yn yr ardal hon, a dod i'w 'nabod yn go dda yn yr ymarferion at hynny.

Ond William Llewelyn oedd yr hynaf. Fe oedd yr Organydd, Athro Sol-ffa plant y capel, arweinydd yr Ysgol Gân ac wrth gwrs cyfansoddwr yr emyndonau sydd gyda ni yn y dathliad hwn, a llawer o rai eraill.

Mi fyddai'n paratoi'r plant ar gyfer arholiadau'r coleg Tonic Sol-ffa, ac mae cenedlaethau o blant y capel yma wedi ennill tystysgrifau o'r coleg hynny ac yn cofio John James Hughes yn dod lawr ar y bws o Dal-y-bont i'w harholi nhw. Ni fuasai arholwr o Lundain wedi cael mwy o barch! Dechrau gyda'r rhai iau, - rhedeg drwy'r "Modulator" fel chwarae — sain y glust, a phrofion eraill heb drafferth, a thra byddai'r plant bach wrthi, mi fyddai pawb arall allan o'r ffordd neu yng nghyntedd y capel yn rebelio ac yn


William ac Alfred Edwards , y ddau frawd

cael hwyl fawr yn chwarae pêl, achos 'doedd neb i gadw trefn arnyn' nhw fan 'ny, a fawr ddim ceir ar y ffordd. Ac fel 'ny drwy'r Junior, Elementary ac Intermediate. Neb yn ffaelu — Llwyddo! a phawb wedi meistroli sgil a fyddai gyda nhw am oes drwy hyfforddiant drylwyr.

Yna, - dechrau ar ddarllen cerdd drwy'r H.N. h.y. y Dual Notation fel y'i gelwid. Roedd bwrdd du a sialc yn angenrheidiol i hyn. (Ble mae hwnnw wedi mynd erbyn heddi?) Roedd yn fodern iawn bryd hynny, ar olwynion, er hwylustod. Heddiw... welwch chi ddim un yn yr ysgolion Mae hyd yn oed y byrddau gwyn a'r pensilau marcio wedi mynd. — Rhyw fyrddau rhyngweithiol electronig sydd heddiw os am fod up-to-date!

Bob nos Sul yn y gaeaf byddai Wm. Llewelyn yn cynnal Ysgol Gân wedi'r oedfa i baratoi oedolion ar gyfer y gymanfa. Bryd hynny byddai Salm ac Anthem swmpus yn cael ei chanu, a'r gynulleidfa gyfan yn canu'r rheiny yn y gwasanaeth ar y Sul. Diwrnod pwysig iawn, i baratoi erbyn y gymanfa.

Faint ohonoch chi a ŵyr mai Elgar oedd hoff gyfansoddwr Wm. Ll. Edwards? Roedd hyn yn dipyn o ryfeddod a syndod ... gan fod Elgar yn gyfansoddwr mor Seisnig. Wnaeth e' ddim ymhelaethu ar hyn, ond cofiwn! roedd Elgar yn organydd yng Nghaerwrangon, yn gorfeistr i'r Tair Gadeirlan (3 Choirs Festival) ac yn gyfansoddwr amlwg yn ei amser.

Byddai Wm. Llewelyn yn cael gwahoddiad i arwain cymanfaoedd yma a thraw, ac o hyn fe welwch fod ei fywyd yn un prysur iawn. Dyma olynydd teilwng i J. T. Rees, ac wrth gwrs fe gafodd wersi ganddo. Cyfansoddi emyn-donau oedd ei ddileit.

Daeth sawl anrhydedd i'w ran tra bu byw. Roedd yn gymrawd o Goleg y Tonic Sol-ffa, Coleg Cerdd Victoria yn Llundain a hefyd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau. Urddwyd ef â'r wisg wen fel Derwydd gan yr Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman a bu'n Olygydd Cerdd Trysorfa'r Plant ac wedi hynny Cylchgrawn Antur am flynyddoedd lawer.

Mae gyda ni ddau gasgliad o'i emyn-donau sef *Clychau'r Maes* a gyhoeddwyd yn 1976 a *Caniadau'r Meysydd* yn 1994.

Cofiaf pan yn ymweld ag ef yn ei ddyddiau olaf, iddo ddweud ei fod yn falch iawn o fod wedi cael saith o donau i *Caneuon Ffydd*. Gobeithio byddwn ni'n canu mwy ohonynt o hyn ymlaen. Fe welwch un yn y *Detholiad* eleni (2008-9).

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Dwyfor ym 1975 fe enillodd y gystadleuaeth ar gyfansoddi emyn-dôn ar eiriau y Parchg R. Gwilym Hughes gydag Arwel Hughes yn beirniadu, a dyma ddwêd ef ar ei feirniadaeth... (Cyfansoddiadau t. 173)

"Dyma i chi dôn sy'n rhedeg yn naturiol fel dŵr yr afon, ac mae'r cyfan yn datblygu i uchafbwynt yn y diwedd heb ail adrodd un cymal."

Dwy yn unig o 24 oedd yn y dosbarth cyntaf. Galwodd y dôn yn Bro Dwyfor ac fe'i gwelwch hi yn *Clychau'r Maes*. Ithon oedd ei ffug-enw. Un sy'n gyfarwydd iawn a chanu tonau Wm. Llewelyn yw Mariane Jones-Powell. Diolchwn iddi am ganu'r dôn fuddugol yn Gymanfa.

Enillodd drachefn ar gyfansoddi emyn-dôn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe ym 1982, gydag Arwel Hughes eto yn beirniadu. Yn anffodus nid oes copi gen i o'r dôn hon, ond credaf fod y feirniadaeth yn rhoi crynodeb go lew o'i allu fel cyfansoddwr. Mae'n ei ddisgrifio fel "crefftwr gofalus" Cyfansoddiadau t.169. Bu deugain yn cystadlu y tro yma, a dim ond dau eto yn y dosbarth cyntaf!

Mae ganddo dôn o'r enw Bro'r Ithon hefyd i'w gweld yn Adran yr Ifanc o'r un llyfr. Clywsom Rhun a Gwern Penri, y ddau frawd o Daigwynion yn canu addasiad deulais o hon.

**Gaenor Hall**

Yn ôl Anwen Ebenezer Ellis: "Atgofion melys iawn sydd gen i o'r prynhawniau Sadwrn yn Ruel gyda W. Llewelyn Edwards. Byddai wrth ei fodd ar y piano a finnau a fy chwaer yn canu gydag e. Roedd ei frwdfrydedd yn amlwg wrth iddo drin a thrafod ei emynau ac arbrofi ei syniadau newydd. Roedd yn syndod ac yn falchder mawr pan ddywedodd ei fod am enwi un o'i emynau ar fy ôl i, ac ar un ar ôl fy chwaer.* Gosododd y dôn 'Anwen' i eiriau Vernon Jones - roedd hi'n briodas berffaith, a bob tro fyddai'n canu neu'n clywed yr emyn bydd yr atgofion yn llifo nôl. Cyn mynd adre o'r Ruel roedd rhaid cael paned a bisged tra'n gwrando ar recordiadau o'i emynau ar 'Ganiadaeth y Cysegr' ar ei system sain 'high tech, a'r sain yn llenwi Bow Street gyfan wy'n siwr"! Roedd yn falch dros ben fod ei emynau wedi eu recordio, ac ar frig y rhestr bob tro oedd ei ffefryn, yr emyn fawreddog 'Bro Eleri'. Byddai hon wastad yn dod â deigryn i'w lygaid.

Gobeithio y byddwn yn clywed llawer mwy ar emynau Llewelyn Edwards yn y dyfodol. Yn sicr mi fyddai wedi bod yn falch iawn fod 'Caniadaeth y Cysegr' wedi recordio'r rhaglenni arbennig hyn arno."

**Anwen Ebenezer Ellis**

* Cyfansoddwyd y dôn CARYL i eiriau W Rhys Nicholas 'Ai dyma'r ffordd i Fethlehem'?. (Gol.

### Tonau William Llewelyn Edwards

Yn ól Alan Wynne Jones: "Roedd William Llewelyn Edwards yn ymwybodol iawn o nodweddion emyn dôn dda. Sail i'r cyfan yw ei wybodaeth sicr o gynghanedd a'i ddealltwriaeth craff o ddilyniant Cordiau a sut i ymdrin â thrawsgyweiriadau yn gelfydd a diffws pan yw neges yr emyn yn galw am hynny. Mae gan ei donau bob amser alawon siapus a chanadwy a rhain, yn eu tro, wedi eu creu dros linell fâs gadarn. Cryfder diamheuol arall yw ansawdd y rhannau mewnol sef llinellau'r alto a'r tenor. Nid mater o ddefnyddio'r nodau cywir i lenwi cordiau sydd yma ond, yn hytrach, cyfalawon cerddorol diddorol sy'n ychwanegu at y gwead nes peri i'r cyfanwaith fod yn grefftus ac yn amlygu a chynnal naws a neges yr emyn gydag adeiladwaith priodol a phwrpasol. Erbyn hyn, d'oes dim amheuaeth nad yw William Llewelyn Edwards yn olynydd teilwng iawn i J T Rees am ei gyfraniad i ganiadaeth y cysegr." **Alan Wynne Jones**

ytincertachwedd08.indd 16 18/11/08 09:31:19

# YSGOL PEN-LLWYN

### Gwasanaeth Diolchgarwch

Cynhaliwyd y gwasanaeth diolchgarwch yn neuadd yr ysgol eleni. Gwahoddwyd y rhieni a chyfeillion yr ysgol i ymuno â ni. Goleuni a'r Creu oedd thema y gwasanaeth ac fe gyfranodd Mrs Anne Davies sgwrs ddiddorol am olau i'r plant.
Derbyniwyd cyfraniadau gan y gynulleidfa at gymdeithas Gofal Ceredigion. Daeth yn swm sylweddol o £70.00 a mawr yw ein diolch iddynt.

### Traws Gwlad

Bu nifer o blant yr ysgol yng nghystadlaethau trawsgwlad yr Urdd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Gwnaeth pob un ymdrech dda iawn a llwyddodd dau, sef Tomos Evans ac Amy Dryburgh, i fynd ymlaen i'r cam nesaf dechrau'r flwyddyn nesaf.

### Ymweliad staff Ysbyty Bron-glais

Cafwyd bore diddorol yng nghwmni Jane a Paul, staff ar ward Angharad Ysbyty Bron-glais Aberystwyth. Bu'r ddau'n egluro beth sydd yn digwydd ar y ward pan fyddwch yn glaf yno. Bu rhai o'r plant yn gwisgo gwisgoedd amrywiol ee meddyg, nyrs a gweithwyr theatr. Yna cawsant ddefnyddio offer tymheredd a gosod rhwymau ar glwyfau. Profi beth oedd bod yn weithiwr ac yn glaf mewn ysbyty. Dyna beth oedd hwyl! Diolch i'r ddau am fore mor hwyliog.



Mrs Ann Davies a rhai o blant Ysgol Pen-llwyn yn y cyfarfod Diolchgarwch



Plant a gymerodd ran yn y rasus trawsgwlad



Jane a Paul Ward Angharad, ysbyty Bronglais gyda rhai o blant Pen-llwyn




Ieuan Evans wedi gwisgo fel meddyg - diolch i staff ward Angharad

**RHODRI JONES**
Brici a chontractiwr adeiladu
**07815 121 238**
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

**M & D PLUMBERS**
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
 Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn gyntaf ar
01974 282624
07773978352

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: R. C. Jenkins
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
8 y bore - 6 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

**GWYNFOR DAVIES ADEILADYDD**

Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

**Defnydd Melanie**
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Diolchgarwch



Ar ddydd Mercher 22ain o Hydref, cynhaliwyd cyngerdd Diolchgarwch blynyddol yr ysgol. Yn dilyn y traddodiad, rhoddwyd croeso i henoed yr ardal i'r achlysur. Cafwyd gwledd o ganu a llefaru graenus o flynyddoedd 1 i 6 ac yn dilyn y perfformiad, cafodd yr henoed gyfle i sgwrsio am ymdrechion y disgyblion dros wledd arall, sef tê hynod o flasus wedi ei baratoi gan staff y gegin. Yn ystod y prynhawn cyflwynodd y Prifathro, Mr Adrian Havard, gasgliad y Diolchgarwch, sef swm o £344 i Mr Denis Davies; cydgysylltwr NSPCC Gogledd a Chanolbarth Cymru.
Ailberfformiwyd cyngerdd y diochgarwch yn neuadd y pentref ar y noson ganlynol. Dyfarnwyd Diochgarwch eleni yn lwyddiant mawr a derbyniodd yr ysgol lythyron o ddiolch a llawer o eiriau caredig gan y sawl a werthfawrogodd ymdrechion y plant a'r staff.




## Trawsgwlad

Cynhaliwyd Trawsgwlad blynyddol Cylch Aberystwyth dydd Gwener Hydref y 17fed ar gaeau'r Ficerdy. Cynrychiolwyd yr ysgol gan 69 o blant blynyddoedd 3 i 6. Llwyddodd pob un ohonynt i gyflawni'r cwrs a chafwyd perfformiadau arbennig gan y canlynol gan iddynt orffen yn y deg cyntaf:-
Megan Harvey bl 3 (7ed); Megan Jackson bl 3 (8ed); Megan Mason bl 4 (4ydd); Joshua Erskine bl 4 (4ydd); Siôn Manley bl 4 (10ed) Ffion Evans bl 5 (1af); Lucy Ankin bl 5 (4ydd); Siôn Ewart bl 5 (7ed); Hannah Miles bl 6 (3ydd); Cerys Harvey bl 6 (8ed); James Albrighton bl 6 (6ed). Mi fyddant nawr yn rhedeg yn erbyn y goreuon o Geredigion i lawr yng ngwersyll Llangrannog fis Mai nesaf. Pob Hwyl iddynt!



## Gweithgareddau ac Ymweliadau

Cafodd plant blwyddyn 6 gyfle i helpu heddlu'r ardal yn ddiweddar. Dan ofal P.C. Hefin Jones, bu'r plant yn defnyddio camera cyflymdra er mwyn codi ymwybyddiaeth modurwyr a oedd yn teithio'n anghyfreithlon drwy'r pentref. I'r sawl a gafodd eu dal, bu'r plant yn holi iddynt gyfiawnhau eu gyrru gwael.

## Adran yr Urdd

Cynhaliwyd Noson Calangaeaf Adran Yr Urdd yn yr ysgol yn ddiweddar. Cafodd aelodau'r Urdd gyfle i wisgo gwisg ffansi a mwynhau ychydig o hwyl a sbri'r noson arbennig hon. Cafodd nifer o blant wobrau hael a chytunodd pawb fod y noson wedi bod yn un ddifyr iawn.



## Chwaraeon

Mae tîmau pêl-droed, hoci a phêl-rwyd yr ysgol yn parhau i chwarae ar brynhawniau Gwener. Dyma'r canlyniadau:-
Pel-droed:
Penrhyn-coch A — 0; Rhydypennau A 10 ( Guto Havard 3, Elis Lewis 3, Sion Ewart 2, Joe Williams, Aaron Bull)
Penrhyn-coch B — 1; Rhydypennau B — 7 ( Jake Lewis 2, Steffan Clifton 2, Joshua Erskine 2, Gruffudd Owen)
Pel-rwyd:
Penrhyn-coch 1; Rhydypennau —12
Hoci:
Rhydypennau A-4 Ysgol Gymraeg A-0
(Ffion Evans 2, Beca Davies, Elis Lewis)

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
Beth am roi cyfle i'ch plentyn chi fynychu Cylch Meithrin?
Mae
CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau ar foreau Llun, Mawrth a Mercher yn ystod tymor yr ysgol rhwng 9 - 11 o'r gloch.
Croeso i blant o 2½ oed i fyny.
Mae'r plant wrth eu bodd yn dysgu tra'n chwarae yng nghwmni ei gilydd.
Am wybodaeth bellach, cysyllter â Susan Davies ar 820065
CYLCH TI A FI RHYDYPENNAU
Mae'r Cylch Ti a Fi yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau bob prynhawn dydd Iau yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 2 - 3:30 o'r gloch.
Croeso cynnes i bob plentyn rhwng 0-2½ oed a'i riant.

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

GWESTY Tynycornel HOTEL
Tal-y-llyn, Tywyn, Gwynedd LL36 9AJ
Gwesty moethus a chartrefol gyda golygfeydd godidog, bwyd blasus a chroeso cynnes. Beth am gael diwrnod i'w gofio ar ddydd eich Priodas, gyda'r cyfan o dan yr un to, a lleoliad perffaith ar gyfer tynnu'r lluniau holl bwysig yna.
Cinio dydd Sul traddodiadol; Prydau bar canol dydd; Te Cymreig; Cinio nos; Cinio busnes; Ystafell i gynnal pwyllgor neu gyfarfod gyda bwffe; Te angladd; Achlysuron arbennig - pen blwydd a phen blwydd priodas.
AM FWY O FANYLION FFONIWCH NI AR (01654) 782 282

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Kerbcraft

Mae blwyddyn 1 wrthi yn wythnosol yn derbyn hyfforddiant Kerbcraft. Mae Evanna yn ymweld â ni yn wythnosol ac yn arwain tîm brwdfrydig o wirfoddolwyr. Maent yn treulio eu hamser yn addysgu'r disgyblion ar sgiliau y ffordd fawr a sut i groesi'r ffordd yn ofalus mewn man diogel.

## Cyngor Ysgol

Cynhaliwyd ein hetholiad yn ddiweddar. Cafwyd nifer dda iawn o ddisgyblion yn sefyll am y Cyngor. Rhoddwyd cyfle i bob disgybl gael siarad o flaen yr ysgol gan gynnig rhesymau dros sefyll. Ar ôl yr holl bleidleisio daeth dau gynrychiolydd o bob dosbarth i'r brig. Yr wyth yma yn awr fydd yn cynrycholi'r ysgol.

Mared Pugh-Evans
- Dosbarth Derbyn
- Cadeirydd

Sarah Cooke
- Dosbarth Derbyn
- Ysgrifennydd

Angharad Davies
- Dosbarth 4
- Is-Gadeirydd

Jac Horwood
- Dosbarth 4
- Trysorydd

Becky Hicks
- Dosbarth 3
- Charles Thomas

Dosbarth 3

Zoe Evans
- Dosbarth 2

Owen Keyworth
- Dosbarth 2

## Pêl-droed

Mae'r chwaraeon rhyng-ysgol wedi ail gychwyn. Yn anffodus bu'n rhaid gohirio un set o gêmau oherwydd y tywydd ond croesawyd Ysgolion Rhydypennau a Comins-coch. Chwaraewyd gêmau pêl-droed a phêl rwyd yn erbyn y ddwy ysgol.

## Trawsgwlad

Llongyfarchiadau i ddau o fechgyn yr ysgol. Cynhaliwyd rasys trawsgwlad ysgolion Cylch Aberystwyth ar gaeau'r Ficerdy yn ddiweddar. Bu bron i bob disgybl o gyfnod allweddol 2 yr ysgol gymryd rhan. Llwyddodd Mathew Merry i ennill y ras i fechgyn blwyddyn 4 a Harri Horwood i ddod yn drydedd. Llongyfarchiadau iddynt. Bydd y ddau ohonynt yn awr yn symud i gystadlu yn rasys y Sir. Da iawn i'r ddau ohonynt ac i bawb a aeth i gystadlu.

## Diolchgarwch

Ar ddydd Gwener olaf cyn hanner tymor, cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol. Croesawyd y Parchg John Livingstone atom i annerch y disgyblion. Cafwyd bron i holl ddisgyblion yr ysgol a oedd yn bresennol yn cymryd rhan. Diolchwyd am lawer o bethau gan y disgyblion o fwyd i ddillad, o anrhegion i deuluoedd. Diolch i Mr Livingstone am ei anerchiad pwrpasol.

## Arad Goch

Croesawyd Mari Turner o gwmni Arad Goch atom yn ystod y mis. Pwrpas ei hymweliad oedd i gefnogi gwaith yr Athrawes Fro drwy weithdai drama. Cafwyd llawer o hwyl yn chwarae rôl. Diolch iddi am ei hymroddiad a'i sesiynau hwyliog.

## Nick Rebbeck

Fel rhan o waith y tymor, cafwyd ymweliad gan Mr Nick Rebbeck, sy'n ffermio yn organig yn ardal Llambed. Pwrpas ei ymweliad oedd i sôn am waith y ffermwr.



Bu'n sôn am flwyddyn ym mywyd y ffermwr ac am yr hyn a dyfir ar ffermydd yn ogystal â'r hyn a roddir fel bwyd i'r gwartheg a'r defaid. Cafwyd cyfle i weld hadau, silwair a gwellt yn ogystal a gwylio fideo o fywyd ar ei fferm. Bu'r disgyblion yna'n gofyn cwestiynau cyn cymryd rhan mewn cwis. Cafwyd llawer o fudd o'r ymweliad a gobeithir trefnu ymweliad â fferm debyg yn nhymor y Gwanwyn.

## Cyfnod Sylfaen

Mae'r Cyfnod Sylfaen wrthi'n ddiwyd yn cynnig amryw o brofiadau i'r disgyblion. Cafwyd nifer o ymweliadau pwrpasol yn ystod y mis. Teithiwyd i'r Goedwig yng Ngogerddan i edrych ar y coed a'r anifeiliad a welir yno. Treuliwyd bore yn Lluest, Aberystwyth yn edrych ar dyfu blodau ac ar y math o flodau a geir yno. Ymweliad arall a gafwyd oedd i Fferm Cwmwythig i weld yr anifeiliaid yno. Cafwyd croeso mawr yn yr holl safleoedd a diolch yn fawr iddynt am eu parodrwydd i'n derbyn. Cafwyd budd mawr o'r ymweliadau.

RHAGFYR 4ydd Nos Iau Ffair Nadolig yr ysgol - 6 y.h. .
RHAGFYR 10-11 Nosweithiau Mercher a Iau Cyngerdd Nadolig yr Ysgol am 7.00
Mynediad trwy docyn yn unig. Tocynnau o'r ysgol.

## Cwis y Tincer

Cafwyd noson hwyliog dros ben ar 7fed Tachwedd, pryd y cynhaliwyd cwis *Y Tincer* yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch. Daeth tyrfa dda at ei gilydd i grafu pen a chnoi beiros wrth i Bob Williams, Penwern, Taliesin, ac Elin Hefin, Y Borth, saethu cwestiynau amrywiol. Byddwn i gyd yn gwybod bellach faint o anifeiliaid oedd gan Job, sut mae Llanbadarn ac Aber-porth yn edrych o'r awyr, ac yn medru dweud y gwahaniaeth rhwng beagle a St Bernard! Diolch i bawb ddaeth i gefnogi, a llongyfarchiadau mawr i'r tim buddugol — Gareth William, Richard Huws, William Howells, Ceris, Non Evans a Haydn ar ennill. Diolch yn arbennig i Bob, Elin a John Hefin am eu holl waith, i'r pwyllgor am drefniadau'r noson, gan gynnwys rafl dan ofal Mairwen Jones, ac i Caryl Lewis am ei chwmni hawddgar, ei rhodd anrhydeddus a'i sylwadau wrth agor y noson. Codwyd £301.45 tuag at goffrau'r Tincer, ac anogwn bawb i ddechrau astudio ar gyfer cwis 09!



CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

ytincertachwedd08.indd 19 18/11/08 09:31:35

# TASG Y TINCER

Rwy'n siwr i mi weld nifer ohonoch chi ar noson Calan Gaeaf allan yn eich gwisgoedd - roedd pentrefi'r Tincer yn llawn gwrachod a bwcibôs o bob lliw a llun! Gobeithio i chi fwynhau gwylio'r tân gwyllt a theimlo'r gwres o goelcerth Guto Ffowc ar 5 Tachwedd. Diolch i chi am liwio'r llun o BeiBei, un o gymeriadau'r gêmau Olympaidd y tro diwethaf. Dyma pwy fuodd wrthi:



**Nia Phillips**

Iona Jane Morgan, Garn Rhos, Bow Street; Teleri Mair Morgan, Ger-y-nant, Dolau; Nia Phillips, 1 Cae'r Odyn, Bow Street; Beca Angharad Davies, Yr ysgoldy, Llandre; Llyr Wyn Evans, Pwllcenawon, Capel Bangor; Kate Angharad Williams, Brynrheidol, Capel Bangor; Alison Keegan, Fferm Maes Bangor, Capel Bangor.

Fi wnes i fwynhau edrych ar waith pob un ohonoch, ond ti Nia sy'n ennill y tro hwn am i ti liwio BeiBei yn las, sef lliw dŵr wrth gwrs! Da iawn ti. Cofiwch bawb i liwio'r llun y mis hwn.

A gawsoch chi wasanaeth diolchgarwch yn yr ysgol yn ystod mis Hydref? Dyma gyfle i ni i gyd ddod at ein gilydd i ddiolch yn fawr am bob dim sydd gennym. Mae'n ddiwedd cyfnod prysur iawn i'r ffermwyr wrth iddynt gael trefn ar eu llysiau, anifeiliaid a'u cnydau cyn y gaeaf. Mae hen bennill yn dweud fel hyn:

"Glaw glaw cadw draw.
Tyred eto ddydd a ddaw.
Haul hawl brysia di
Tywynna'n siriol arnom ni,
Fel y bo inni gael cynhaeaf
Cyn y delo Calangaeaf"

Mae'r bardd Alun Cilie yn sôn am weithwyr y fferm yn cael swper mawr gyda'i gilydd i ddathlu'r Cynhaeaf, ac yn rhoi tusw o'r 11.5 ptd, neu'r llafur (corn) a gasglwyd y flwyddyn honno yng nghanol y bwrdd bwyd. Efallai bod rhai ohonoch chi wedi cael swper y Cynhaeaf yn eich eglwys neu gapel:

"... un tusw ar ôl
yn aros i'r dorri ar ganol y ddôl.
Bwrw'r pladur iddo'n eu tro
mewn ffydd,
a'r pladuriwr olaf yn arwr y
dydd
a thaflu'r tusw i ganol y bwrdd
y swper fawr lle'r oedd pawb yn
cwrdd."

**Beth am liwio llun y ffermwr y mis hwn? Mae'n siwr iddo gael cynhaeaf da am ei fod yn gwenu, ac mae'r defaid yn fodlon eu byd! Anfonwch eich gwaith ata'i i'r cyfeiriad arferol (46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE) erbyn 1af Rhagfyr. Ta ta tan toc!**



Enw

Cyfeiriad

Oed Rhif ffôn

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Peiriant golchi mawr
(duvets £3)
Gwasanaeth glanhau duvets
plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi,
llenni a.y.y.b.
Siop lanhau dillad
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 313 | TACHWEDD 2008